# CABINET – 3YDD HYDREF 2018

**PWNC:** **CYNLLUN CYDRADDOLDEB STRATEGOL – ADRODDIAD MONITRO A GWELLIANT BLYNYDDOL 2017-2018**

**ADRODDIAD GAN:** **CYFARWYDDWR CORFFORAETHOL – ADDYSG A GWASANAETHAU CORFFORAETHOL**

---

## 1. PWRPAS YR ADRODDIAD

1.1 Rhoi gwybod i'r Cabinet am y cynnydd a wnaed yn ystod blwyddyn ariannol 2017-2018 yn erbyn targedau yng Nghynllun Cydraddoldeb Strategol cyfredol y Cyngor, a gofyn am gymeradwyaeth y Cabinet i'w gyflwyno i'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol a'i gyhoeddi ar-lein.

## 2. CRYNODEB

2.1 Mae gan y Cyngor ddyletswydd statudol i gynhyrchu adroddiad monitro blynyddol ar faterion Cydraddoldeb dan y ddeddfwriaeth bresennol. Mae'r gofynion yn fanwl iawn o ran pa wybodaeth berthnasol sydd angen ei chynnwys yn yr adroddiad monitro a gwelliant blynyddol (ynghlwm yn llawn fel atodiad).

2.2 Felly, pwrpas cyfanswm y wybodaeth a gyflwynir yw sicrhau bod y corff rheoleiddio sy'n gysylltiedig (y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol) yn cael tystiolaeth lawn o gydymffurfiaeth ac ymrwymiad y Cyngor i'r dyletswyddau statudol hynny.

## 3. CYSYLLTIADAU Â STRATEGAETHAU

3.1 Mae materion cydraddoldeb yn themâu trawsbynciol y Nodau Llesiant yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ac maent yn effeithio ar bob polisi, swyddogaeth a gweithdrefn y Cyngor, gan gwmpasu'r rhai sydd wedi'u hanelu at y cyhoedd a pholisïau mewnol sy'n ymdrin ag aelodau staff y Cyngor. Mae'r adroddiad yn cyfrannu at y Nodau Llesiant canlynol:

- Cymru sy'n fwy cyfartal
- Cymru o gymunedau cydlynus
- Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu

3.2 Hefyd, mae nifer o strategaethau neu reoliadau cenedlaethol Llywodraeth Cymru y mae gwaith Cydraddoldeb y Cyngor yn cysylltu â nhw; **"Ffyniant i Bawb"** a'r **"Cynllun Cyflenwi Cenedlaethol ar gyfer Cydlyniant Cymunedol"** - sef Strategaethau Cydlyniant Cymunedol Llywodraeth Cymru; **"Mynd i'r Afael â Throseddau a Digwyddiadau Casineb: Fframwaith Gweithredu"** a "**Teithio at Ddyfodol Gwell**" - Cynllun Gweithredu a Chyflenwi Fframwaith Sipsiwn a Theithwyr Llywodraeth Cymru; **"Cymraeg 2050: Strategaeth y Gymraeg"** - fframwaith Llywodraeth Cymru i gefnogi ac ymestyn y defnydd o'r Gymraeg, ac agweddau amrywiol ar Reoliadau Cynllunio, Trwyddedu ac Adeiladu.

## 4. YR ADRODDIAD

4.1 O dan Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus yng Nghymru, rhaid cyhoeddi adroddiad blynyddol ar y Cynllun Cydraddoldeb Strategol unrhyw bryd o fewn y 12 mis ar ôl diwedd y flwyddyn ariannol y mae'r adroddiad hwnnw'n ymdrin â hi.

4.2 Mae Cynllun Cydraddoldeb Strategol – Adroddiad Monitro a Gwelliant Blynyddol 2017-2018 wedi'i atodi at yr adroddiad hwn.

4.3 Yn gryno fodd bynnag, dylid nodi'r wybodaeth ganlynol am berfformiad sy'n cwmpasu'r flwyddyn ariannol dan sylw:

- Yn 2016, gwnaethom ein cyflwyniad blynyddol cyntaf i Fynegai Cydraddoldeb Addysg Stonewall a chawsom gydnabyddiaeth arbennig am y gwaith a wnaethom i fynd i'r afael â bwlio homoffobig, biffobig a thrawsffobig mewn ysgolion. Hefyd, fe'n gosodwyd ar y brig yng Nghymru ac yn 21ain yn y DU gyfan. Parhaodd y safleoedd hyn yng nghyflwyniad y llynedd.
- Cyhoeddom ein Datganiad cyntaf ar y Bwlch Cyflog Rhwng y Rhywiau ar gyfer 2017. Dangosodd y data bod y Blwch Cyflog Cymedrig Rhwng y Rhywiau ar gyfer y flwyddyn yn **8.9%**.
- Defnyddiwyd **£104,000** o arian i gefnogi gwaith gwella mynediad i bobl anabl, a wnaeth gynnwys mynediad at byllau nofio, gosod drysau awtomatig a rampiau i adeiladau addysg a phrynu meinciau picnic hygyrch i'n parciau gwledig. Gwnaed cyfraniad hefyd i gynorthwyo â'r gwaith gwella er mwyn darparu toiledau hygyrch ym Mharc Morgan Jones.
- Ysgol Gynradd Rhiw Syr Dafydd oedd yr ysgol gyntaf yn y fwrdeistref sirol i ennill Gwobr Dementia Gyfeillgar gan y Gymdeithas Alzheimer.
- Rydym wedi bron â dyblu nifer y staff sy'n mynychu cyrsiau Cymraeg, o 59 i 111.
- Cyhoeddom ein hamserlen bysys dwyieithog gyntaf.
- Cynhaliwyd nifer o weithgareddau hyrwyddo, gan gynnwys Diwrnod Shwmae Su'mae, Mis Hanes Pobl LHDT, Mis Hanes Pobl Dduon, Diwrnod Cofio'r Holocost a Diwrnod Rhyngwladol Menywod.

## 5. LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL

5.1 Mae'r adroddiad hwn yn cyfrannu at y Nodau Llesiant fel y'u rhestrir yn y Cysylltiadau â Strategaethau uchod, yn enwedig y cyfrifoldeb a roddir ar gyrff cyhoeddus i gyfrannu at Gymru sy'n fwy cyfartal, Cymru o gymunedau cydlynus a Chymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu. Mae'r adroddiad yn adlewyrchu bod yr awdurdod wedi cynnwys pobl sydd â budd yn llesiant yr ardal, gan gynnwys grwpiau sy'n cynrychioli trigolion â nodweddion gwarchodedig. Rydym wedi cydweithio drwy'r Grŵp Mynediad i Bobl Anabl, gyda'r nod o sicrhau ein bod yn cydnabod y problemau sy'n wynebu rhai grwpiau ac er mwyn eu hatal rhag methu â chael mynediad at ein gwasanaethau yn gyfartal. Trwy ein hunanarfarnu a'n prosesau cynllunio busnes blynyddol, mae meysydd gwasanaeth wedi ystyried y goblygiadau o ran cydraddoldeb a gallu ein preswylwyr i'w hanghenion gael eu diwallu.

## 6. GOBLYGIADAU O RAN CYDRADDOLDEB

6.1 Cynhaliwyd asesiad llawn o Gydraddoldeb ac ymgynghoriad ar y Cynllun Cydraddoldeb Strategol wrth ei ddatblygu, felly ni wnaethpwyd asesiad llawn ar yr adroddiad blynyddol hwn. Mae'r adroddiad ei hun yn asesiad o gyflawniadau a wnaed gan y Cyngor o dan y cynllun.

## 7. GOBLYGIADAU ARIANNOL

7.1 Nid oes goblygiadau ariannol uniongyrchol yn sgil yr adroddiad hwn gan fod yr adroddiad blynyddol yn cwmpasu'r gwaith a wnaed eisoes yn y flwyddyn ariannol.

## 8. GOBLYGIADAU PERSONÉL

8.1 Nid oes goblygiadau personél yn sgil yr adroddiad hwn, er bod hyn yn parhau i gael ei adolygu wrth i'r gwaith a bennir yn y Cynllun Cydraddoldeb Strategol fynd yn ei flaen.

## 9. YMGYNGHORIADAU

9.1 Mae'r adroddiad yn seiliedig ar ddata a gasglwyd ar draws y meysydd gwasanaeth wrth weithredu'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol yn ystod 2017-2018. Roedd nifer o'r swyddogion a enwir ar ddiwedd yr adroddiad hwn yn ymgynghoreion, ac felly gwnaethant gyfrannu gwybodaeth adrodd benodol ar gyfer gwahanol adrannau yn yr adroddiad blynyddol llawn.

9.2 Anfonwyd yr adroddiad hwn at yr Ymgynghoreion a restrir isod ac mae'r holl sylwadau a gafwyd wedi'u hadlewyrchu yn yr adroddiad hwn.

## 10. ARGYMHELLION

10.1 Argymhellir bod y Cabinet yn nodi cynnwys yr adroddiad blynyddol hwn ac yn cymeradwyo cyflwyno'r wybodaeth hon i'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol a'i chyhoeddi ar wefan y Cyngor.

## 11. RHESYMAU DROS YR ARGYMHELLION

11.1 Trwy gasglu'r holl wybodaeth ofynnol ynghyd yn yr adroddiad hwn o feysydd gwasanaeth y Cyngor ac o weithio mewn partneriaeth, ac wedyn eu cyhoeddi, mae'r Cyngor yn sicrhau ei fod yn cydymffurfio â'i ddyletswyddau statudol o dan y ddeddfwriaeth Cydraddoldeb gyfredol.

11.2 Yn bwysicach fyth, mae'r adroddiad hefyd yn dangos faint o waith cadarnhaol ac arfer da mae'r Cyngor yn eu cyflawni er budd yr unigolion a'r grwpiau hynny sy'n dod o dan un neu ragor o'r nodweddion gwarchodedig a materion Cydraddoldeb ehangach.

## 12. PŴER STATUDOL

12.1 Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011
Mesur yr Iaith Gymraeg (Cymru) 2011
Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015
Deddf Hawliau Dynol 1998
Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011.

Awdur: Anwen Cullinane, Uwch Swyddog Polisi (Cydraddoldeb a'r Gymraeg)
Est.: 4404 cullima@caerffili.gov.uk
Ymgynghoreion: Y Cyng. Barbara Jones – Dirprwy Arweinydd ac Aelod Cabinet dros Gyllid, Perfformiad a Llywodraethu
Y Cyng. James Pritchard – Hyrwyddwr Cydraddoldeb
Christina Harrhy – Prif Weithredwr Dros Dro
Richard Edmunds – Cyfarwyddwr Corfforaethol – Addysg a Gwasanaethau Corfforaethol
Mark S Williams – Cyfarwyddwr Corfforaethol Dros Dro – Cymunedau
Stephen Harris – Pennaeth Gwella Busnes Dros Dro
Lynne Donovan – Pennaeth Gwasanaethau Pobl
Keri Cole – Prif Swyddog Addysg
Mark Williams – Pennaeth Dros Dro Gwasanaethau Eiddo
Robert Tranter – Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol / Swyddog Monitro
Kathryn Peters – Rheolwr Uned Polisi Corfforaethol

Ros Roberts – Rheolwr Perfformiad
Christopher Hunt – Cydlynydd Cydlyniant Cymunedol – Gorllewin Gwent
Elizabeth Sharma – Swyddog Ymgynghori ac Ymgysylltu
Sian Wolf-Williams – Swyddog Polisi - Arweinydd Rhaglen Adleoli Syrian
Mark Jennings – Swyddog Strategaeth Dai
Lisa Rawlings – Swyddog Rhanbarthol Cyfamod y Lluoedd Arfog
Mandy Keenan – Swyddog Policy – Arweinydd Pobl Hŷn
Emma Bush – Seicolegydd Addysg

Papurau Cefndir:
Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2016-2020
Amcanion a Chynllun Gweithredu Cydraddoldeb a'r Gymraeg 2016-2020
Amrywiol Ddogfennau Canllawiau
(Mae'r rhain ar gael yn electronig ar gyfer gwybodaeth ar y tudalennau perthnasol ar www.caerffili.gov.uk/cydraddoldeb)

Atodiadau:

| | |
|---|---|
| Atodiad 1 | Cynllun Cydraddoldeb Strategol – Adroddiad Monitro a Gwelliant Blynyddol 2017-2018 |

Atodiad 1

# Cynllun Cydraddoldeb Strategol Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili

# Adroddiad Monitro a Gwelliant Blynyddol 2017 - 2018

Mae'r Cyngor hwn yn cydnabod bod gan bobl anghenion, gofynion ac amcanion gwahanol a byddwn yn gweithio'n weithredol yn erbyn pob math o wahaniaethu drwy hybu cysylltiadau da, a pharch at ein gilydd yn ein holl gymunedau, trigolion, aelodau etholedig, ymgeiswyr am swyddi a'n gweithlu, a rhyngddynt.

Byddwn hefyd yn gweithio i greu mynediad cyfartal i bawb i'n gwasanaethau, beth bynnag fo'u tarddiad ethnig, rhyw, oed, statws priodasol, cyfeiriadedd rhywiol, anabledd, ailbennu rhywedd, crefydd a chred neu ddi-gred, defnydd o'r Gymraeg, Iaith Arwyddion Prydain neu unrhyw iaith arall, cenedl, cyfrifoldeb am bobl ddibynnol neu unrhyw reswm arall na all gael ei gyfiawnhau.

Cyhoeddwyd 31ain Hydref 2018

A greener place
Man gwyrddach

Caerphilly County Borough Council
Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili

## Cynnwys


| Adran | Tudalen |
|---|---|
| Cyflwyniad | 2 |
| 1. Delio â Throsedd a Cham-drin ar sail Hunaniaeth – Amcan Cydraddoldeb 1 | 4 |
| 2. Mynd i'r afael â'r Bwlch Cyflog Rhwng y Rhywiau – Amcan Cydraddoldeb 2 | 9 |
| 3. Gwella Mynediad Corfforol – Amcan Cydraddoldeb 3 | 11 |
| 4. Gwella Mynediad Cyfathrebu – Amcan Cydraddoldeb 4 | 12 |
| 5. Ymgysylltiad a Chyfranogiad Cynhwysol – Amcan Cydraddoldeb 5 | 15 |
| 6. Cydymffurfio â Safonau'r Iaith Gymraeg – Amcan Cydraddoldeb 6 | 18 |
| 7. Cefnogi Cymunedau sy'n Gyfeillgar i Oed – Amcan Cydraddoldeb 7 | 21 |
| 8. Cefnogi Cyfamod y Lluoedd Arfog – Amcan Cydraddoldeb 8 | 24 |
| 9. Gweithio â Chymunedau Sipsiwn a Theithwyr – Amcan Cydraddoldeb 9 | 26 |
| 10. Amrywiaeth yn y Gweithle – Amcan Cydraddoldeb 10 | 27 |
| 11. Cydymffurfiaeth Gorfforaethol – Amcan Cydraddoldeb 11 | 35 |
| 12. Enghreifftiau o Arfer Da / Teilwra Gwasanaethau<br>a) Cludiant Teithwyr<br>b) Hyrwyddo Mewnol<br>c) Criw Cymraeg – Ysgol Gynradd Rhiw Syr Dafydd<br>d) Hyrwyddo Allanol<br>e) Mis Hanes Pobl LHDT<br>f) Mis Hanes Pobl Dduon<br>g) Diwrnod Cofio'r Holocost<br>h) Diwrnod Rhyngwladol Menywod | 38 |
| | |
| Atodiad A - Datganiad i'r Wasg Stonewall | 44 |
| Atodiad B - Canllaw CBSC ar y Synhwyrau | 45 |
| Atodiad C - Data Cyflogres CBSC - Cyfansymiau Corfforaethol | 48 |


Mae'r adroddiad hwn ar gael yn Saesneg, ac mewn ieithoedd neu fformatau eraill ar gais.
This report is available in English, and in other languages or formats on request.

## Cyflwyniad

Mae'n ofynnol i'r cyngor o dan Reoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011 gynhyrchu adroddiad monitro blynyddol ar y camau sydd wedi eu cymryd er mwyn cwrdd â dyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus a'i Amcanion Cydraddoldeb ei hun. Llywodraeth Cymru oedd y llywodraeth gyntaf i osod dyletswyddau penodol ar wasanaethau cyhoeddus a oedd yn mynd ymhellach na gofynion y Ddeddf. Mae'r Ddeddf yn gosod dyletswydd ar gyrff cyhoeddus i ystyried sut i gyfrannu'n gadarnhaol at gymdeithas decach trwy ddarparu gwasanaethau a rhoi sylw dyladwy i ddileu gwahaniaethu. Mae'r dyletswyddau penodol yn cynnwys:

- creu adroddiad blynyddol
- asesiadau o effaith ar gydraddoldeb
- gwahaniaethau mewn cyflog
- cyhoeddi Cynlluniau Cydraddoldeb Strategol
- gwybodaeth am y gweithlu
- ymgysylltu
- gwybodaeth am gydraddoldeb
- caffael
- hyfforddiant staff

Mae gwaith cydraddoldeb wedi parhau i gael ei brif ffrydio yn ystod 2017-2018, ac mae adrannau'r adroddiad hwn yn edrych ar gynnydd y cyngor yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Mae nifer o astudiaethau achos yn cael eu cynnwys i ddangos y gwaith y mae'r meysydd gwasanaeth wedi eu gwneud er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth a gwella'r ddarpariaeth gwasanaeth o flwyddyn i flwyddyn.

Mae'r Cyngor yn parhau i weithio mewn partneriaeth â sefydliadau ac mae rhai ohonynt yn aelodau o Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Caerffili, sy'n dod â chyrff cyhoeddus at ei gilydd er mwyn gweithio i wella lles economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Bwrdeistref Sirol Caerffili. Maent yn gyfrifol, o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru), am oruchwylio datblygiad y Cynllun Llesiant Lleol newydd, 'Y Caerffili a Garem 2018-2023'. Mae'r aeloedau yn dod o'r sectorau cyhoeddus, iechyd, gwirfoddol a phreifat ac maent yn ymdrechu i fod yn greadigol ac arloesol wrth gyflawni yn unol â'u dyletswyddau statudol.

Mae llawer iawn o wybodaeth y Cyngor sy'n ymwneud â Chydraddoldeb eisoes wedi'i chyhoeddi yn fanylach ar dudalennau Cydraddoldeb gwefan y Cyngor, lle gallwch hefyd lawrlwytho fersiwn pdf o'r adroddiad hwn:- **www.caerffili.gov.uk/cydraddoldeb**.

Mae'r Cyngor yn parhau i fod yn ymrwymedig i sicrhau bod pawb o fewn bwrdeistref sirol Caerffili yn cael eu trin â pharch cyfartal ac nad yw eu hamgylchiadau unigol yn rhwystr iddynt gael y gwasanaethau sydd eu hangen arnynt oddi wrth y Cyngor neu ei bartneriaid.

Er mwyn i'r Adroddiad Blynyddol hwn ar Gydraddoldeb gael ei ystyried yn briodol, aethpwyd ag ef drwy broses gymeradwyo fewnol drwy'r Cabinet ar 3 Hydref 2018. Yna, cyflwynir yr adroddiad blynyddol i Swyddfa'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol erbyn 31 Hydref 2018.

**Cynghorydd David Poole**
**Arweinydd y Cyngor**
**Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili**

**Christina Harrhy**
**Prif Weithredwr Dros Dro**
**Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili**

# 1. Delio â Throsedd a Cham-drin ar sail Hunaniaeth

## Monitro Bwlio Gwahaniaethol mewn Ysgolion ac Adrodd Arno 2017-2018

Yn ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2016-2020, mae gennym Amcan Cydraddoldeb penodol yn ymdrin â 'Mynd i'r Afael â Thrais a Chamdriniaeth seiliedig ar Hunaniaeth'. Yr amcan yw gostwng lefelau achosion gwirioneddol neu ganfyddedig o gam-drin, bwlio, aflonyddu a thrais seiliedig ar hunaniaeth, troseddau casineb a digwyddiadau casineb yn y fwrdeistref sirol.

Er mwyn mesur yr amcan hwn yn unol â Chynllun Cydraddoldeb Strategol 2016-2020, mae angen i ni sicrhau bod mesurau monitro ac adrodd gwell ar waith. Bydd hyn yn arwain at fonitro gwell a chynnydd posibl yn nifer y digwyddiadau. Fodd bynnag, ni ddylid ystyried cynnydd yn nifer y digwyddiadau yn negyddol nac yn arwydd bod y sefyllfa'n gwaethygu. Gellir cysylltu cynnydd yn nifer y digwyddiadau i well dealltwriaeth o fwlio gwahaniaethol, mwy o hyder i gyflwyno cwynion a mwy o ddealltwriaeth o bryd y mae'n briodol eu cofnodi.

Enghraifft o well monitro bwlio gwahaniaethol yw bod Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili, ers 2012, wedi gweithio gydag ysgolion i ddatblygu gwell monitro a chefnogaeth i ddisgyblion ac athrawon wrth ddelio â bwlio gwahaniaethol, gan gynnwys bwlio homoffobig. Mae'r ffurflen monitro bwlio gwahaniaethol y mae ein hysgolion yn ei defnyddio yn cynnwys 10 o feysydd hunaniaeth disgyblion.

Bydd unrhyw ddata a gasglwyd ac adroddiadau a gyhoeddwyd yn defnyddio cyfansymiau dienw bob amser, gyda dim ond enghreifftiau o arfer da gan ysgolion unigol, neu'r rhai sydd wedi cael hyfforddiant pwrpasol yn cael eu henwi yn benodol ar unrhyw adeg.

Caiff data ei gasglu a'i adrodd mewn ffyrdd amrywiol er mwyn helpu i nodi tueddiadau, i dargedu cymorth a dangos bod y Cyngor ac ysgolion yn cydymffurfio â'r dyletswyddau cyfreithiol ynglŷn â'r materion hyn.

Mae bwlio gwahaniaethol yn fater o bryder i bob awdurdod lleol, fodd bynnag mae'r adroddiad hwn yn helpu i ddangos bod Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili a'i bartneriaid yn mynd ati i fonitro'r sefyllfa ac yn mynd i'r afael â'r materion drwy weithio gyda phartneriaid i wneud cynnydd cadarnhaol bob blwyddyn.

Mae 88 o sefydliadau addysg sy'n darparu data monitro i'r Gyfarwyddiaeth Addysg ac mae crynodeb o'r data ar homoffobia a adroddwyd dros y 19 tymor ysgol yn cael ei ddangos yn y tabl canlynol:

| Blwyddyn Academaidd | Nifer y Digwyddiadau a Gofnodwyd bob Tymor | | |
|---|---|---|---|
| | Tymor yr Hydref | Tymor y Gwanwyn | Tymor yr Haf |
| 2011-2012 | | | **(peilot)** 7 |
| 2012-2013 | 2 | 1 | 2 |
| 2013-2014 | 3 | 5 | 1 |
| 2014-2015 | 7 | 12 | 8 |
| 2015-2016 | 12 | 5 | 10 |
| 2016-2017 | 20 | 11 | 6 |
| 2017-2018 | 8 | 4 | Data i'w gyflwyno ym Medi 2018 |

### Hyfforddiant i Ysgolion

Anogir ysgolion i fwrw golwg ar eu data a'i ddefnyddio i lywio'u hymarfer. I dynnu sylw at rai enghreifftiau penodol o'r cyfnod adrodd hwn:

- Sylwodd un o'n hysgolion cynradd ar nifer uchel o ddigwyddiadau homoffobig mewn dosbarth o ddisgyblion ac estynnodd wahoddiad i Umbrella Cymru ddod i'r ysgol i gynnal gwasanaethau i'r ysgol gyfan a gweithdai i grŵp o ddisgyblion.

Bu cynnydd sylweddol yn nifer y digwyddiadau gwahaniaethol sy'n seiliedig ar iaith a diwylliant. Mae'n ymddangos bod hyn yn adlewyrchu newidiadau i boblogaethau lleol a newidiadau yn y darlun cenedlaethol yn dilyn BREXIT. Mae'r Athro Ymgynghorol sy'n cynorthwyo disgyblion i fodloni anghenion ffoaduriaid a disgyblion â Saesneg fel iaith ychwanegol yn ymwybodol o'r cynnydd hwn ac mae'n annog ysgolion i feddwl am anghenion ehangach eu myfyrwyr, a sut i gefnogi eu llesiant a hyrwyddo amrywiaeth. Er enghraifft, mae ysgolion wedi cynnal gwasanaethau a gwersi dosbarth yn annog plant i feddwl am y rhesymau pam mae pobl yn ffoaduriaid a chynnal digwyddiadau sy'n hyrwyddo amrywiaeth ddiwylliannol. Mae cynhadledd i gynorthwyo ysgolion i gynorthwyo disgyblion â Saesneg fel iaith ychwanegol wrthi'n cael ei thrafod hefyd.

Yn ogystal â'r hyfforddiant cyffredinol sydd ar gael i bob ysgol, mae ysgolion bwrdeistref sirol Caerffili hefyd yn cael hyfforddiant drwy Raglen Graidd Cyswllt Ysgolion Cymru Gyfan, a ddarperir gan Heddlu Gwent. Mae'r sesiynau hyn yn ymdrin â phynciau fel parch, bwlio a materion amrywiaeth ar draws yr

ysgolion cynradd ac uwchradd yn y fwrdeistref sirol. Mae Rhaglen Graidd Cyswllt Ysgolion Cymru Gyfan yn enghraifft o weithio mewn partneriaeth rhwng Llywodraeth Cymru a 4 Heddlu Cymru, ac mae'n cynnwys cyfres o gyfraniadau / gwersi ar Atal Troseddu a mentrau Plismona Cefnogol mewn Ysgolion sydd â'r nod o:

- addysgu plant a phobl ifanc am y niwed y gall camddefnyddio sylweddau ei achosi i'w hiechyd, eu teulu ac i'r gymuned yn ehangach
- hyrwyddo egwyddorion dinasyddiaeth gadarnhaol trwy gyfrwng addysg
- cyflawni gostyngiad yn y lefelau troseddu ac anhrefn ymhlith ein cymunedau ifanc.

Ers Medi 2016, mae'r rhaglen yn cynnwys y Craidd Critigol, Darpariaeth Dargedig a'r Ddewislen Ategol. Bydd pob sesiwn yn parhau i gael ei chyflwyno drwy apwyntiad wedi'i drefnu ymlaen llaw gyda Swyddog Heddlu Cymunedol yr Ysgol.

Fel y nodwyd uchod, bydd Swyddogion Heddlu Cymunedol Ysgolion hefyd yn darparu amrywiaeth o weithgareddau Plismona Cefnogol mewn Ysgolion a gweithgareddau diogelu. Bydd y rhain yn cynnwys datrys digwyddiadau gan ddefnyddio'r Polisi Trechu Troseddau mewn Ysgolion a, lle bo hynny'n berthnasol, Ymagweddau Adferol. Mae Swyddogion Heddlu Cymunedol Ysgolion hefyd yn gallu darparu amrywiaeth o wasanaethau ysgol sy'n briodol i oedran.

Rhagwelir y bydd rôl ddiogelu estynedig yn datblygu ymhellach y cysylltiadau rhwng cymunedau lleol ac ysgolion yn ogystal ag asiantaethau partner, e.e. Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid, Gwasanaethau Diogelu ac ati. Mae hyn yn arbennig o berthnasol i fwlio sy'n seiliedig ar hunaniaeth a gwahaniaethu lle gallai troseddau fod wedi cymryd lle hefyd.

Cefnogir Rhaglen Graidd Cyswllt Ysgolion Cymru Gyfan yn llawn gan wefan bwrpasol, www.schoolbeat.org, sy'n cynnwys gwybodaeth ac arweiniad pellach ar gyfer athrawon, disgyblion a rhieni.

Cyflwynwyd cyfanswm o 332 o wersi yn ystod 2017-2018 i 8,861 o fyfyrwyr o ysgolion ar draws y fwrdeistref sirol.

## Mynegai Cydraddoldeb Addysg – Stonewall Cymru

Mae Mynegai Cydraddoldeb Addysg Stonewall yn mesur pa mor dda mae awdurdodau lleol yn helpu a chefnogi ysgolion i fod yn gynhwysol wrth ddathlu gwahaniaeth ac atal a mynd i'r afael â bwlio homoffobig, biffobig a thrawsffobig. Trwy sicrhau bod mesurau ar waith a bod camau cadarnhaol yn cael eu cymryd, mae hyn hefyd yn helpu i gefnogi pobl ifanc Lesbiaid, Hoyw, Deurywiol a Thraws sy'n byw yn y gymuned leol.

Y Mynegai Cydraddoldeb Addysg sy'n cael ei gynnal gan Stonewall yw'r unig adnodd cenedlaethol a ddefnyddir i feincnodi cynnydd a wneir yn y maes hwn. Mae'n ffordd wych o ddangos arfer da, ond hefyd sylweddoli ymhle mae angen deall y bylchau lle mae angen gwelliant.

Gwnaed cyflwyniad cyntaf Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili i'r Mynegai Cydraddoldeb Addysg yn 2016, pan gawsom gydnabyddiaeth arbennig am y gwaith a wnaethom i fynd i'r afael â bwlio homoffobig, biffobig a thrawsffobig mewn ysgolion. Hefyd, fe wnaeth hyn ein gosod yn gyntaf o blith y 10 awdurdod lleol o Gymru a gyflwynodd wybodaeth, ac yn 21ain yn y Deyrnas Unedig (DU). Gweler Atodiad A - Datganiad i'r Wasg Stonewall i weld y datganiad llawn i'r wasg.

Yn 2017, cynahliom ein safle ar frig yr awdurdodau lleol o Gymru a hefyd ein safle yn 21ain yn y DU am yr ail flwyddyn.

## Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol

Mae Cyngor Caerffili yn aelod o Fwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gwent ar gyfer Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol, a thrwy'r bwrdd hwnnw, maent wedi ysgrifennu a gweithredu Strategaeth Ranbarthol Gwent ar Drais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol.

Mae'r strategaeth ranbarthol yn cyd-fynd â'r Strategaeth Genedlaethol ar Drais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol, ac yn cyfrannu ati, ac sy'n adlewyrchu'r 6 amcan allweddol ynddi fel Blaenoriaethau Strategol cyffredinol y Bwrdd Partneriaeth. Yn ei hanfod, diben y strategaeth ranbarthol yw rhoi arweinyddiaeth a'r cyfeiriad sy'n hybu cysondeb ac arfer da yn y ffordd yr eir i'r afael â Thrais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol ar draws Gwent.

Y 6 Blaenoriaeth Strategol:

1. Cynyddu ymwybyddiaeth a herio agweddau ynghylch trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol ar draws Gwent.
2. Cynyddu ymwybyddiaeth plant a phobl ifanc o bwysigrwydd perthnasoedd diogel, cyfartal ac iach, a'r ffaith fod ymddygiad camdriniol yn anghywir bob amser.
3. Mwy o ffocws ar ddwyn cyflawnwyr i gyfrif, a darparu cyfleoedd iddynt newid eu hymddygiad gyda phwyslais ar ddiogelwch y dioddefwr
4. Rhoi blaenoriaeth i ymyrryd yn gynnar ac atal
5. Hyfforddi gweithwyr proffesiynol perthnasol i ddarparu ymatebion effeithiol, amserol a phriodol i ddioddefwyr a goroeswyr
6. Rhoi mynediad cyfartal i ddioddefwyr at wasanaethau ledled y rhanbarth, a'r rheini'n wasanaethau o ansawdd uchel y darperir adnoddau priodol ar eu cyfer, sy'n seiliedig ar gryfderau, sy'n cael eu harwain gan anghenion ac sy'n ymatebol i rywedd.

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili wrthi'n rhoi ei gynllun hyfforddiant 2017 i 2022+ ar Drais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol ar waith, i hyfforddi ei holl staff i gyflawni gofynion y Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol. Mae cydymffurfio â'r Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol yn ofyniad o dan Ddeddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015.

Gweler **Adran 10. Amrywiaeth yn y Gweithlu** am fanylion yr hyfforddiant.

## 2. Mynd i'r afael â'r Bwlch Cyflog Rhwng y Rhywiau

Cyhoeddodd y Cyngor ei Ddatganiad cyntaf ar y Bwlch Cyflog Rhwng y Rhywiau ar gyfer 2017, sy'n ofyniad o dan Reoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Penodol ac Awdurdodau Cyhoeddus) 2017, sef bod pob sefydliad sydd wedi'i restru yn Atodlen 2 sy'n cyflogi dros 250 o weithwyr yn cyflwyno adroddiad blynyddol ar ei fwlch cyflog rhwng y rhywiau. Dylid cyhoeddi'r data ar wefan y Cyngor ac ar wefan llywodraeth erbyn 30 Mawrth bob blwyddyn.

Hefyd, mae'r rheoliadau'n gofyn bod cyflogwyr yn cyfrifo ac yn cyhoeddi adroddiad ar wahân ar y bwlch mewn tâl bonws rhwng y rhywiau. Fodd bynnag, nid oes cynllun o'r fath ar waith gan y Cyngor.

Yn y tabl isod, ystyr 'Tâl cyffredin' yw cyflog sylfaenol, lwfansau, tâl adeg absenoldeb a thâl premiwm ar gyfer sifftiau. Nid yw'n cynnwys tâl goramser, tâl diswyddo, tâl yn lle absenoldeb, na chydnabyddiaeth anariannol. Nid yw'r Cyngor yn cynnig cynlluniau cymhellion bonws na gwaith yn ôl tasg.

**Cyfanswm Nifer y Gweithwyr sydd wedi'u cynnwys yn y data hwn: 6791**

**Nifer y Benywod: 4760 (70%)**
**Nifer y Gwrywod: 2031 (30%)**

| | % |
|---|---|
| 1. Bwlch cyflog cymedrig rhwng y rhywiau – Tâl cyffredin | 8.9% |
| 2. Cyfradd gymedrig fesul awr - Tâl cyffredin (Gwryw/Benyw) | (£12.18 / £11.09) |
| 3. Bwlch cyflog canolrifol rhwng y rhywiau – Tâl cyffredin | 8.6% |
| 4. Cyfradd ganolrifol fesul awr – Tâl cyffredin (Gwryw/Benyw) | (£10.91 / £9.97) |
| 3. Bwlch cyflog cymedrig rhwng y rhywiau – Tâl bonws yn y 12 mis a ddaeth i ben ar 31 Mawrth | 0% |
| 4. Bwlch cyflog canolrifol rhwng y rhywiau – Tâl bonws yn y 12 mis a ddaeth i ben ar 31 Mawrth | 0% |
| 5. Cyfran y gweithwyr gwryw a benyw a gafodd dâl bonws yn y 12 mis a ddaeth i ben ar 31 Mawrth: | Gwryw 0<br>Benyw 0 |

**Cyfran y gweithwyr gwryw a benyw ym mhob chwartel**

| Chwartel | Benyw % (o bobl) | Gwryw % (o bobl) |
|---|---|---|
| Chwartel cyntaf (is) (£7.60 - £8.45) | 84.05% (1428) | 15.95% (271) |
| Ail chwartel (£8.45 - £10.33) | 72.1% (1222) | 27.9% (473) |
| Trydydd chwartel (£10.33 - £12.52) | 60.6% (1029) | 39.4% (669) |
| Pedwerydd chwartel (uwch) (£12.52 - £74.61) | 63.63% (1081) | 36.37% (618) |

Mae'r data'n nodi bod llawer mwy o fenywod na dynion mewn swyddi ym mhob chwartel o'r data oherwydd bod poblogaeth gweithlu’r Cyngor yn fenywaidd yn bennaf.

Yn gymesur fodd bynnag, o boblogaeth wrywaidd y gweithlu, mae’r data yn dangos bod 13.34% o’r 2031 ohonynt a gyflogir, mewn swyddi yn y chwartel is, 23.29% yn yr ail chwartel, 32.94% yn y trydydd chwartel a 30.43% yn y pedwerydd chwartel.

Mae hyn yn cymharu â 30% o boblogaeth fenywaidd y gweithlu, sef cyfanswm o 4760 o fenywod, mewn swyddi yn y chwartel is, 25.67% yn yr ail chwartel, 21.62% yn y trydydd chwartel a 22.71% yn y pedwerydd chwartel.

Mae’r Cyngor yn hyderus nad yw ei fwlch cyflog rhwng y rhywiau yn deillio o dalu cyflogeion gwryw a benyw yn wahanol am yr un gwaith neu waith cyfwerth. Mae’r bwlch cyflog rhwng y rhywiau yn deillio o’r rolau mae dynion a menywod yn gweithio ynddynt ar hyn o bryd a'r cyflogau mae’r rolau hynny yn eu talu.

Mae ein bwlch cyflog rhwng y rhywiau yn adlewyrchu achosion y bwlch cyflog rhwng y rhywiau ar lefel gymdeithasol. Er enghraifft, mae ymchwil wedi nodi bod gan fenywod gyfrifoldeb anghymesur am ofal plant o hyd, er bod rhieni’n fwyfwy hyblyg. Mae’n ffaith yn y data hwn mai menywod sy’n dal mwyafrif helaeth y swyddi rhan-amser ac mai dyma'r swyddi sy'n denu cyflogau yn y chwarteli is.

Mae Cyngor yn darparu dros 600 o wasanaethau, mae rhain yn amrywiol ac yn cynnwys glanhau, arlwyo, sbwriel ac ailgylchu, tai, gwasanaethau cymdeithasol /gwasanaethau gofal, hamdden, ieuenctid, llyfrgelloedd, tai, gwasanaethau addysg gan gynnwys addysg oedolion, gwasanaethau technegol, parciau a mannau agored, cynllunio, adfywio a phriffyrdd.

I weld y datganiad llawn –
Datganiad Bwlch Cyflog Rhwng y Rhywiau 2017 - CBS Caerffili

# 3. Gwella Mynediad Corfforol

## Rhaglen Waith Hygyrchedd Anabledd

Mae Adran Gwasanaethau Eiddo Corfforaethol y Cyngor yn parhau i ddarparu gwelliannau i wneud adeiladau cyhoeddus yn hygyrch i bawb drwy'r Rhaglen Waith Hygyrchedd Anabledd. Bob blwyddyn mae rhaglen o waith yn cael ei drefnu i ddiweddaru a gwella mynediad corfforol i ystod o adeiladau sy'n eiddo i'r Cyngor.

Yn ystod 2017-2018, neilltuwyd £104,000 o gyllid er mwyn cynnal gwaith gwella hygyrchedd anabledd.

Roedd y gwaith yn cynnwys:

- Canolfannau Hamdden - £13,000, gan gynnwys mynediad gwell i byllau nofio
- Addysg - £52,000 gan gynnwys drysau awtomatig a rampiau
- Cefn gwlad - £13,000, sy’n cynnwys Meinciau Picnic Hygyrch
- Parciau - £5,000 o gyfraniad tuag at Doiledau Hygyrch ym Mharc Morgan Jones
- Canolfannau Cymunedol - £8,000 o welliannau i doiledau hygyrch
- Gwasanaethau Cymdeithasol - £13,000, gan gynnwys gwaith ar wella mynediad o’r tu allan a gwella canllawiau

## 4. Gwella Hygyrchedd Cyfathrebu

Mae’r Cyngor yn gwella’r ffordd y mae’n gwneud gwasanaethau a gweithgareddau’r cyngor yn fwy hygyrch i’r bobl sydd eu hangen, o ran iaith a fformat, yn barhaus.

### Safonau Gwasanaeth Cwsmeriaid Corfforaethol




Yn Rhagfyr 2017, lansiodd y Cyngor ei Ymrwymiad Gwasanaethau Cwsmeriaid.

Mae ein hamrywiol adrannau yn ymdrin â phob agwedd ar ddarparu gwasanaethau o’r crud i’r bedd a chredwn fod ein cwsmeriaid wrth wraidd ein busnes.

Rydym yn darparu nifer fawr o wasanaethau i drigolion lleol ac wrth wneud hyn mae’n rhaid i ni sicrhau ein bod yn darparu gwasanaethau o safon i’n holl gwsmeriaid.

Mae'r Cyngor wedi lansio set newydd o Safonau Gwasanaeth Cwsmeriaid Corfforaethol a bydd gofyn i staff ar bob lefel ar draws y sefydliad adlewyrchu'r safonau hyn ym mhopeth maen nhw’n ei wneud.

### Wythnos Ymwybyddiaeth Byddardod

I hyrwyddo Wythnos Ymwybyddiaeth Byddardod, cyhoeddom erthygl yn atgoffa trigolion ein bod wedi ymroi i ddarparu gwasanaethau cynhwysol a hygyrch i ein holl drigolion, gan gynnwys trigolion â nam ar y clyw.

Mae’r erthygl, a ymddangosodd ar ein gwefan, mewn nifer o bapurau newyddion lleol a thrwy ein sianeli cyfryngau cymdeithasol, yn hyrwyddo’r cyfleusterau sydd ar gael yn ein canolfannau gwasanaeth cwsmeriaid, gan gynnwys goleuo da, systemau dolen sain, dim rhwystrau gwydr a sicrhau mai bach iawn o annibendod gweledol sydd yn yr ardal fel ei bod hi’n haws darllen gwefusau.

I weld yr erthygl lawn – [Gwasanaethau CBS Caerffili i bobl â Nam ar y Clyw]

## Nam ar y Synhwyrau– Canllaw Cyfathrebu

Enghraifft wych o wella hygyrchedd cyfathrebu yw datblygu Canllaw Cyfathrebu Nam ar y Synhwyrau gan dîm Cartrefi Caerffili, i helpu staff i wella'r ffordd maen nhw'n cyfathrebu â phobl sydd â nam ar eu synhwyrau.

Mae'r canllaw poced yn rhoi cynghorion defnyddiol i swyddogion eu hystyried wrth gyfathrebu ag unigolion sydd â nam ar y clyw neu'r golwg. Mae'r cyngor sydd yn y canllaw yn cynnwys defnyddio iaith ddisgrifiadol wrth siarad â pherson sydd â nam ar eu golwg, a sicrhau golau digonol wrth gyfathrebu â rhywun sydd efallai angen darllen gwefusau.




Mae Cartrefi Caerffili yn gyfrifol am amrywiaeth o wasanaethau tai ar draws y fwrdeistref sirol, gan gynnwys rheoli dros 10,000 o dai cyngor, cefnogaeth ar gyfer tai yn y sector preifat, cyngor ar dai a digartrefedd. Mae holl staff rheng flaen yr adran wedi derbyn copi o'r canllaw poced.

Cynhyrchwyd y canllaw mewn partneriaeth â Grŵp Nam ar y Synhwyrau Cartrefi Caerffili, sef grŵp o gynrychiolwyr tenantiaid sy'n gweithio gyda staff y cyngor i wella gwasanaethau ar gyfer pobl sydd â nam ar eu synhwyrau. Mae'r canllaw poced hefyd wedi ei gymeradwyo gan Action on Hearing Loss Cymru a Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol Pobl Ddall (RNIB) Cymru.

I weld y canllaw cyfan, gweler **Atodiad B – Canllaw Nam ar y Synhwyrau**.

## Fframwaith Cyfieithu a Chyfieithu ar y Pryd

Enghraifft dda arall o'r Cyngor yn gwella mynediad at ei wasanaethau a'i weithgareddau yw'r gwaith a wnaed i greu a gweithredu cytundeb fframwaith o'r enw *Darparu Gwasanaethau Cyfieithu a Dehongli ar gyfer y Gymraeg, Iaith Arwyddion Prydain ac Ieithoedd Eraill*.

Mae'r fframwaith yn amlinellu'r cwmnïau boddhaol hynny, yn ôl y broses dendro, ar gyfer darparu gwasanaethau cyfieithu a dehongli ar gyfer y Gymraeg, Iaith Arwyddion Prydain ac ieithoedd eraill.

Dechreuodd y fframwaith ym mis Mai 2017 am gyfnod o 3 blynedd, gyda’r posibilrwydd o’i ymestyn am flwyddyn arall. Mae’r gwasanaethau sydd ar gael drwy’r fframwaith yn cynnwys cyfieithu ysgrifenedig i 100 a mwy o ieithoedd, cyfieithu ar y pryd, dehongli, Braille, cyfieithu cyfreithiol a dehongli dros y ffôn.

Drwy gael fframwaith yn ei le, mae'n helpu'r Cyngor i ddarparu ei wasanaethau a'i weithgareddau yn seiliedig ar anghenion ieithyddol ei gwsmeriaid, trigolion ac ymwelwyr, pan fo’r rhain yn angenrheidiol ac mewn ffordd gost-effeithiol a strwythuredig.

## Gwasanaeth Tanysgrifio i Fwletin Newyddion drwy’r E-bost

Darn o waith a wnaethom gyda’r bwriad o wella gwasanaethau a sicrhau bod tanysgrifwyr yn cael y wybodaeth yn yr iaith o’u dewis yw’r bwletinau e-bost Gov Delivery; gall trigolion tanysgrifio i’r rhain a dewis y pynciau sydd o’r diddordeb mwyaf iddynt.

Roedd angen glanhau’r data yn ein cronfa ddata oherwydd bod nifer o danysgrifwyr ddim yn edrych ar y wybodaeth a anfonwyd. Rheswm arall dros lanhau’r data oedd sicrhau bod y gwasanaeth hwn yn cydymffurfio â gofynion Safonau’r Gymraeg.

Anfonwyd e-bost at holl danysgrifwyr y gwasanaeth yn gofyn iddynt ddewis iaith ar gyfer derbyn bwletinau e-bost drwy’r gwasanaeth yn y dyfodol, sef Cymraeg, Saesneg neu Ddwyieithog.

Mae’r broses wedi golygu ein bod wedi colli llawer o danysgrifwyr segur, ond rydym wedi cynyddu nifer tanysgrifwyr â’r bwletinau newydd Cymraeg 101.9%. Mae hyn yn golygu bod cynnydd o 161 o danysgrifwyr ychwanegol â’r gwasanaeth Cymraeg, gan ddod â chyfanswm nifer y tanysgrifwyr i 319, ac mae’r nifer yn cynyddu’n raddol.

# 5. Ymgysylltiad a Chyfranogiad Cynhwysol

Caiff pob digwyddiad ymgynghori ac ymgysylltu ei gofnodi ar gronfa ddata trwy wefan Cyngor Caerffili: Cronfa Ddata Ymgynghoriadau

Mae ymgysylltiadau corfforaethol allweddol a arweiniwyd gan y Tîm Cyfathrebu yn cynnwys:

### Ymgynghoriad ar y Cynllun Ariannol Tymor Canol

Mae adroddiad cryno llawn i'w weld yma:
https://www.caerphilly.gov.uk/involved/Consultations/Budget-Consultation-2018-19?lang=cy-gb

Defnyddiwyd amrywiaeth o ddulliau i annog cyfranogiad a hyrwyddo'r ymgynghoriad (e.e. sesiynau galw heibio wyneb yn wyneb ar draws y fwrdeistref, Newsline papur newydd y Cyngor, arolygon ar bapur ar ar-lein, negeseuon e-bost targedig gan gynnwys NewsOnline, y cyfryngau cymdeithasol, ac ati) i sicrhau bod holl sectorau'r gymuned wedi gallu cael dweud eu dweud.

Trefnodd Menter Iaith Caerffili fwrdd o siaradwyr Cymraeg yng nghyfarfod wyneb yn wyneb y Panel Safbwynt. Roedd aelodau o Rwydwaith Rhieni a Fforwm Ieuenctid Caerffili yn bresennol hefyd. Yn ogystal, ysgrifennwyd at bob grŵp allweddol sydd wedi'u rhestru yng "Nghanllawiau Ymgynghori a Monitro" y Cyngor.

Ar gyfer y sesiynau galw heibio, gofynnwyd i breswylwyr â gofynion penodol, fel gofynion mynediad neu ddolen sain, neu breswylwyr y byddai angen cyfieithu arnynt neu breswylwyr a oedd yn dymuno siarad Cymraeg yn y sesiynau, gysylltu â ni ymlaen llaw er mwyn gallu gwneud y trefniadau angenrheidiol.

### Arolwg Cartrefi

Mae arolwg a ddarparwyd drwy Newsline ac ar bapur (yn ddwyieithog), ac y'i dosbarthwyd yn fwriadol i'r gwasanaeth ieuenctid, y fforwm 50+, Menter Iaith Caerffili, Rhwydwaith Rhieni Caerffili ac ati, wedi denu 2774 o ymatebion. Y canlyniad mwyaf trawiadol oedd bod 74% o'r ymatebwyr yn fodlon ar y cyfan gyda'r gwasanaeth a ddarperir gan y Cyngor. Cafodd data monitro ei gasglu a'i ddadansoddi gan gynnwys proffil yr ymatebwyr sydd i'w weld ar dudalen 5 yr adroddiad: Arolwg Cartrefi 2017.

## Rhaglen Ymgysylltu Staff

Fel rhan o ymrwymiad y Bwrdd Gwella Busnes i wella ymgysylltiad staff ar draws y sefydliad, cynhaliwyd arolwg manwl o'r staff ar draws yr awdurdod ym misoedd Mawrth ac Ebrill 2017. Diben yr arolwg oedd deall sut beth yw hi i weithio i'r sefydliad a sut mae staff yn teimlo y bydd y sefydliad a'u rolau yn newid yn y dyfodol.

Gofynnodd yr arolwg am farn staff am weithio i'r awdurdod yn gyffredinol, yn ogystal â chwestiynau mwy penodol ar:

- gyfleoedd dysgu a datblygu;
- rolau'n newid;
- arweinyddiaeth, datblygiad a chyfathrebu;
- effeithiolrwydd a chymorth rheolwyr;
- rheoli newid.

Yn ogystal, gofynnwyd i staff amlinellu unrhyw "syniadau da" am ffyrdd o wella gwasanaethau a'u darparu'n fwy effeithlon.

Cyflwynwyd canlyniadau arolwg y staff i'r Tîm Rheoli Corfforaethol, a'u trafod gyda nhw, ym mis Mai 2017 a gall staff weld y rhain ar Borth Mewnrwyd y Cyngor, ynghyd ag adroddiad cryno.

Rhwng Medi a Rhagfyr 2017, cynhaliwyd gweithdai wyneb yn wyneb gyda'r Rhwydwaith Rheolwyr a'r Fforwm Rheoli Cymunedau i adrodd canlyniadau'r arolwg yn ôl ac i reolwyr drafod yn fanylach ffyrdd o fynd i'r afael â'r meysydd i'w gwella a godwyd gan y staff, drwy'r arolwg.

## Strategaeth Ymgysylltu

Bydd Strategaeth Ymgysylltu'r Cyngor yn cael ei ymgorffori yn Strategaeth Gyfathrebu'r awdurdod ac mae'n cael ei hadolygu ar hyn o bryd. Hefyd, rydym wedi ymrwymo i Strategaeth Ymgysylltu a Chyfathrebu'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Caerffili.

## Pride Cymru 2017 – Cynghorau Balch

Dyma’r 4edd flwyddyn pan ddaeth Cynghorau o bob cwr o dde-ddwyrain a gorllewin Cymru ynghyd o dan y faner ‘Cynghorau Balch’ i ymgynghori â mynychwyr Pride, a gofyn iddynt am adborth er mwyn helpu i wella gwasanaethau’r cyngor nawr ac yn y dyfodol.

Yn benodol, fe wnaeth yr ymgysylltu ganolbwyntio ar droseddau casineb a Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol, a oedd yn dod i rym. O safbwynt Gorllewin Gwent, defnyddiwyd yr adborth a gafwyd i helpu drafftio’r cynlluniau llesiant lleol.

Mae Cynghorau Balch yn ymroi i hyrwyddo cydraddoldeb mewn gwasanaethau cyhoeddus a dileu’r rhwystrau mae pobl LHDT yn eu hwynebu. Mae cynlluniau eisoes ar y gweill ar gyfer Pride Cymru 2018, lle bydd ‘Cynghorau Balch’ yn cymryd rhan yn yr Orymdaith am y tro cyntaf.

# 6. Cydymffurfio â Safonau'r Iaith Gymraeg

## Safonau'r Iaith Gymraeg

Mae Mesur yr Iaith Gymraeg (Cymru) 2011 wedi disodli Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 ac, fel rhan o'r ddeddfwriaeth newydd, yng Nghymru mae gan yr iaith Gymraeg statws gyfreithiol gyfartal gyda'r Saesneg ac ni ddylid ei thrin yn llai ffafriol. Nid oes raid i gyrff cyhoeddus ddatblygu a gweithredu Cynlluniau Iaith Gymraeg bellach ond, yn hytrach, mae'n rhaid iddynt gydymffurfio â set o Safonau'r Gymraeg cenedlaethol.

Mae Comisiynydd yr Iaith Gymraeg wedi cyhoeddi Hysbysiad Cydymffurfio sy'n nodi pa rai o'r 176 o safonau yn y ddeddfwriaeth sy'n berthnasol i'r awdurdod lleol, ynghyd ag unrhyw eithriadau a'u dyddiadau gweithredu.

Mae ein cynnydd yn cael ei gofnodi bob blwyddyn yn Adroddiad Blynyddol Safonau'r Gymraeg 2017/2018, a gyhoeddir ar ein gwefan, ar dudalen Safonau'r Iaith Gymraeg.

## Strategaeth Iaith Gymraeg 2017-2022

Gofyniad arall Safonau'r Gymraeg yw Cyhoeddi Strategaeth Iaith Gymraeg 5 Mlynedd 2017-2022. Lansiwyd y Strategaeth gan y Gweinidog Alun Davies yng ngŵyl Gymraeg Ffiliffest ym mis Mehefin 2017.

Mae'r strategaeth hon yn amlinellu sut mae'r awdurdod lleol, mewn cydweithrediad â'i bartneriaid, yn bwriadu hyrwyddo'r Gymraeg a hwyluso'r defnydd ar y Gymraeg yn ehangach yn y fwrdeistref sirol. Mae rhagor o wybodaeth ar y strategaeth i'w gweld ar ein gwefan hefyd Strategaeth Iaith Gymraeg 2017-2022.

Er mwyn monitro datblygiad yn gysylltiedig â Strategaeth Iaith Gymraeg 2017-2022, cyhoeddwyd adroddiad cynnydd fel atodiad i Adroddiad Blynyddol Safonau'r 2017-2018. Mae'r adroddiad cynnydd yn cyflwyno tystiolaeth o'r gwaith a'r gwaith partneriaeth gwych sy'n digwydd rhwng y Cyngor a sefydliadau trydydd parti. Cliciwch yma i weld yr adroddiad llawn: Adroddiad Blynyddol Safonau'r Gymraeg 2017-2018

Darn allweddol o waith fu datblygu llyfryn ar ddod yn ddwyieithog. Mae'r llyfryn yn rhoi atebion i rieni i gwestiynau, yn mynd i'r afael â phryderon ac yn datgan manteision bod yn ddwyieithog. Mae'n nodi llwybr clir y bydd plant yn ei ddilyn o'r cyfnod meithrin, cynradd, uwchradd a'r tu hwnt.

Mae'r llyfryn hwn ar ffurf drafft ar hyn o bryd, ond y gobaith yw y bydd y fersiwn derfynol yn barod mewn pryd ar gyfer y flwyddyn academaidd newydd.

### Diwrnod Shwmae / Su'mae

Ymunodd staff cyngor Caerffili â miloedd o bobl a sefydliadau ledled Cymru i gymryd rhan yn y Diwrnod Shwmae / Su'mae (dydd Sul 15 Hydref).

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili wedi cymryd camau gwych i ddod yn awdurdod dwyieithog fel rhan o Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Mae annog staff, y gymuned ac ysgolion i gymryd rhan mewn diwrnodau fel Diwrnod Shwmae / Su'mae yn cynnig cyfle i ddathlu'r Gymraeg.

Gwahoddwyd ysgolion ar draws y sir i gymryd rhan mewn cystadleuaeth gelf i ddylunio crys Rygbi sy'n dangos beth mae Cymru'n ei olygu iddyn nhw ac yn cynnwys y gair "Shwmae" neu "Su'mae" yn y llun. Cyflwynwyd crys rygbi gyda'r dyluniad buddugol arno i'r disgybl a oedd yn gyfrifol am y dyluniad, ac i'w ysgol, cyn Pencampwriaeth Rygbi'r Chwe Gwlad 2018.

Hefyd, fe wnaeth y Gwasanaeth Llyfrgelloedd gymryd rhan yn y diwrnod drwy arddangos yr holl ddyluniadau a ddaeth i law ar gyfer y crys rygbi ar sgriniau yn y pedair prif lyfrgell dros benwythnos Diwrnod Shwmae / Su'mae. Hefyd, arddangoswyd eu hamrywiaeth o adnoddau Cymraeg drwy greu arddangosfeydd mewnol a gwneud fideos byr o aelodau staff a chwsmeriaid yn dweud 'Shwmae' o fewn fframiau hunlun lliwgar iawn; ymddangosodd y rhain ar sianeli'r Cyngor ar y cyfryngau cymdeithasol.









## Hyrwyddo’r Gymraeg

Ym mis Mai 2017, cynhaliom fenter hyrwyddo gyda’r staff i annog a hyrwyddo’r defnydd ar y Gymraeg wrth ateb galwadau ffôn, defnyddio peiriannau ateb, darparu gwasanaethau sydd â neges ffôn awtomataidd a defnyddio negeseuon ‘allan o’r swyddfa’.

Esboniom y Safonau i staff a rhoddom wybod iddynt am ein hymrwymiadau, i sicrhau ein bod yn ei bodloni wrth ddarparu gwasanaethau a rhoi gwybod iddynt am y cymorth a’r adnoddau sydd ar gael i’r staff.

Rhoddom gardiau i staff eu gosod ar y bwrdd, i’w helpu a’u cefnogi wrth y ddesg, a chyhoeddom nifer o daflenni ffeithiau ar Borthol yr Uned Polisi Corfforaethol i staff eu darllen ac ymgyfarwyddo â’r wybodaeth a roddir.


I gynorthwyo staff i feddwl am ddwy iaith wrth ddarparu gwasanaethau, gosodom bosteri mewn amrywiol fannau o gwmpas yr adeilad corfforaethol, lle mae staff yn debygol o’u gweld.  Mae’r posteri’n cael eu newid yn rheolaidd ac yn dangos i’r staff sut i ynganu ymadroddion, o gyfarchion ffôn sylfaenol i gyfarchion tymhorol.











# 7. Cefnogi Cymunedau sy'n Gyfeillgar i Oed

### Gweithred Bositif 50+ – Byw'n Hirach, Heneiddio'n Dda

Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae datblygu cymunedau Dementia-gyfeillgar wedi cymryd camau sylweddol ymlaen. Buodd rhannu gwybodaeth a chyngor ar y cyfryngau cymdeithasol yn ddull llwyddiannus o gyfleu gwybodaeth i breswylwyr sydd â chysylltiad â'r rhyngrwyd a chymunedau penodol o fudd yn lleol ac yn genedlaethol. Hefyd, rydym wedi parhau i ymrymuso a chefnogi Fforwm 50+ Bwrdeistref Sirol Caerffili.




Penodwyd y Cynghorydd Barbara Jones – Aelod Cabinet dros Gyllid, Perfformiad a Llywodraethu – yn Aelod Hyrwyddwr Pobl Hŷn gan y Cyngor llawn.

### Ymgyrch ar y Cyfryngau Cymdeithasol

Mae cyfrif Twitter @50plus_AgeWell yn parhau i gynyddu nifer ei ddilynwyr, gyda thros 700 erbyn hyn, ac mae ein partneriaeth rhwng Gweithred Bositif 50+ a grŵp 'Caerphilly Over 50' ar Facebook yn parhau'n bartneriaeth rymus.

Y llwyddiant eithriadol eleni oedd ein hymgyrch atal cwympiadau 'Cerdded fel Pengwin', yn ystod y tywydd eira, a gyrhaeddodd dros 32,000 o bobl drwy Facebook. Cafodd yr ymgyrch ei ddarlledu gan BBC News, Channel 4 ac eraill, ac ein helpu i gyrraedd 55,000 arall o bobl a wyliodd fideo newyddion y BBC, a'r rhai a'i gwyliodd ar y newyddion neu raglen 'The Last Leg' ar Channel 4!




### Cyngor Dementia-Gyfeillgar

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili wedi dangos ei gefnogaeth ar gyfer helpu i wella bywyd pobl y mae dementia wedi effeithio arnynt. Mewn cyfarfod o'r Cyngor llawn, cytunodd y Cynghorwyr i gefnogi Hysbysiad o gynnig, a fyddai'n cadarnhau ymrwymiad y Cyngor i ddod yn Gyngor Dementia-Gyfeillgar, trwy weithio mewn partneriaeth â Chyfeillion Dementia i wella bywyd pobl y mae dementia wedi effeithio arnynt.

Mae'r awdurdod wedi penodi'r Cynghorydd Carol Andrews yn 'Hyrwyddwr Dementia Gyfeillgar'. Hefyd, cytunwyd y byddai holl Aelodau'r Cyngor yn ymgymryd â Hyfforddiant Ffrindiau Dementia yn y dyfodol agos.

Gwnaed llawer o waith eisoes i gefnogi'r ymgyrch Dementia-Gyfeillgar; daeth Sefydliad y Glowyr y Coed-duon yn theatr Dementia-Gyfeillgar gyntaf Cymru a daeth y Tŷ Weindio yn Nhredegar Newydd yn amgueddfa Dementia-Gyfeillgar gyntaf Cymru.

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn parhau â'i waith fel Cyngor Dementia-Gyfeillgar trwy annog busnesau ac ysgolion lleol i'n helpu i ddod yn fwrdeistref sirol Dementia-Gyfeillgar.

Enghraifft o hyn yw Ysgol Gynradd Rhiw Syr Dafydd yn Oakdale a ddaeth, ym Mawrth 2018, yn ysgol gyntaf bwrdeistref sirol Caerffili i gael Gwobr Dementia-Gyfeillgar gan Gymdeithas Alzheimer, o ganlyniad i sesiynau hyfforddi a gyflwynwyd i ddisgyblion ac athrawon yn yr ysgol.




Cynhaliwyd nifer o sesiynau Ymwybyddiaeth Dementia-Gyfeillgar, ac mae mwy ar y gweill yn y dyfodol agos.  Mae'r rhai sydd eisoes wedi cwblhau'r hyfforddiant yn cynnwys Cabinet a Thimau Rheoli Corfforaethol y Cyngor, sydd wedi dod yn Gyfeillion Dementia.

## Fforwm 50+ Bwrdeistref Sirol Caerffili

Mae adroddiadau blynyddol y fforwm yn amlygu'r cynnydd da a wnaed, er gwaethaf nifer o heriau. Roedd y fforwm wedi lleihau'r cymorth roeddent yn derbyn gan Swyddog Gweithred Bositif 50+ y Cyngor ac maent wedi ymateb i'r her trwy ddatblygu'n llawer mwy hunangynhaliol. Mae lefel hanesyddol a chyfredol y buddsoddiad mewn cymorth a roddwyd i'r Fforwm yn dwyn buddion erbyn hyn. Dyma enghreifftiau o'r gwaith a wnaethant:

- Ymateb yn rhagweithiol i nifer o ymgynghoriadau lleol a chenedlaethol
- Cynhyrchu a dosbarthu 4000 o gylchlythyron haf a gaeaf, *Natter That Matters,* yn lleol
- Digwyddiadau cymdeithasol '*Rhannu Gwen'*
- Meithrin cysylltiadau cryf a chynnal digwyddiadau ar y cyd â Gofalwyr Caerffili
- Mae'r Fforwm 50+ wedi derbyn gwahoddiad i fynychu Grŵp Ymgysylltu a Chyfathrebu Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Caerffili.

# 8. Cefnogi Cyfamod y Lluoedd Arfog

## Y Lluoedd Arfog yng Nghaerffili

Mae Cyfamod y Lluoedd Arfog yn nodi'r ymrwymiad sydd gan yr awdurdod lleol i gefnogi'r gymuned lluoedd arfog, gan gynnwys gwasanaethu milwrol, eu teuluoedd a'u plant, priod a pherthnasau dibynnol a chyn-filwyr sydd wedi rhoi gwasanaeth i'w gwlad.

Ers creu rôl Swyddog Cyswllt Rhanbarthol Cyfamod y Lluoedd Arfog ym mis Medi 2017, mae aelodau'r awdurdod lleol wedi elwa o hyfforddiant pwrpasol ar Gyfamod y Lluoedd Arfog a'r hyn mae'n ei olygu i'w hadran. Gan ddechrau gyda'r Adran Addysg, rhoddwyd briff i benaethiaid 87 o ysgolion.

Mae Fforwm Lluoedd Arfog Caerffili yn cyfarfod yn chwarterol i sicrhau bod nodau ac amcanion Cyfamod Caerffili y Lluoedd Arfog yn cael eu cyflawni.  Mae wedi mynd o nerth i nerth ac mae dros 20 o bartneriaid yn ei fynychu erbyn hyn gyda nifer ohonynt o'r drydedd sector sy'n gallu darparu gwasanaethau cymorth unigryw.



Cynhaliodd Cyngor Caerffili ddigwyddiad arbennig i gofnodi Canmlwyddiant yr Awyrlu Brenhinol.

Cafodd gwesteion gwadd, Arglwydd Raglaw Gwent, y Brigadydd Robert Aitken, disgyblion ysgol ac aelodau'r cyhoedd eu gwahodd i ymuno â chynrychiolwyr yr RAF i gofnodi'r garreg filltir yn ystod seremoni arbennig yn Nhŷ Penallta.



Yn ystod y digwyddiad, cyflwynodd y Maer, y Cynghorydd John Bevan, wobrau i ddisgyblion ysgol lleol a gymerodd ran yn y gystadleuaeth ddylunio ar gyfer creu darn o offer neu awyren â thema Gymreig. Rhan o wobr enillwyr y gystadleuaeth oedd cael ymweliad arbennig ag Arddangosfa Statig o Awyrennau a Pharth STEM RAF100 ar 18 Mai, yn Neuadd y Ddinas, Caerdydd.

Mae datblygiadau eraill yn cynnwys tudalennau Facebook a Twitter newydd yn benodol ar gyfer hyrwyddo gwaith a digwyddiadau i Gymuned y Lluoedd Arfog!




## Diwrnod y Lluoedd Arfog

Bob blwyddyn, mae'r Cyngor yn nodi Diwrnod y Lluoedd Arfog gyda dathliad cymunedol i dalu teyrnged i Gymuned y Lluoedd Arfog mewn trefi amrywiol ar draws y fwrdeistref sirol.  Cynhelir y digwyddiad poblogaidd hwn yng nghanol tref Caerffili ar Ddydd Sadwrn 24ain Mehefin 2017.

Cychwynodd y diwrnod gyda gorymdaith filwrol ysblennydd drwy ganol y dref gyda phobl yn llinellu'r llwybr i ddangos eu cymorth i'r cannoedd o gyfranogwyr yn yr orymdaith.

Parhaodd y diwrnod gyda Gwasanaeth ingol Awyr Agored a fynychir gan gannoedd o westeion ac aelodau o'r cyhoedd.  Darparodd y gwasanaeth cyfle i bobl i gofio'r rhai a gollodd eu bywydau wrth gwblhau eu dyletswydd.

Uchafbwynt y dydd oedd y Spitfire Brwydr Prydain yn hedfan heibio a'r arddangosfa wefreiddiol gan Dîm Arddangosfa Parasiwt Neidio i Arwyr.



# 9. Gweithio â Chymunedau Sipsiwn a Theithwyr

Mae Grŵp Sipsiwn a Theithwyr y Cyngor yn parhau i gyfarfod ddwywaith y flwyddyn i fonitro unrhyw newidiadau i'r sefyllfa leol ers cyhoeddi'r Asesiad Llety Sipsiwn a Theithwyr a gwblhawyd yn 2015 ac a gymeradwywyd gan Lywodraeth Cymru yn 2016.

Yn ddiweddar, mae aelodaeth y grŵp wedi cael ei hehangu i gynnwys y rheolwr Cefnogi Pobl ac un o swyddogion Gofal, sy'n gweithio'n agos gyda Chefnogi Pobl i ddarparu cymorth cysylltiedig â llety i Sipsiwn a Theithwyr sy'n byw mewn llety brics a morter yn y fwrdeistref sirol.  Nodwyd bod un teulu yn y fwrdeistref sirol ac mae'n cael cymorth.

Mae'r grŵp yn cymryd rhan yn weithgar yn ymgynghoriadau Llywodraeth Cymru; y diweddaraf ohonynt oedd yr ymgynghoriad 'Galluogi Sipsiwn, Roma a Theithwyr', a lansiwyd ym mis Medi 2017 gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant.  Gofynnodd yr ymgynghoriad am farn ar gynigion oedd â'r nod o wella mynediad cymunedau Sipsi, Roma a Theithwyr ledled Cymru at help, cyngor a gwasanaethau, gyda bwriad i fynd i'r afael â'r anghydraddoldebau a'r tlodi ymhlith y cymunedau hyn.

Rydym wedi sefydlu cyfleuster ar y Gofrestr Tai Gyffredin i gasglu data i lywio penderfyniadau yn y dyfodol ynglŷn â gofynion llety y gymuned Sipsiwn a Theithwyr.  Wrth wneud cais i'r gofrestr, gall Sipsiwn a Theithwyr fynegi dewis ar gyfer darpariaeth dros dro neu ddarpariaeth barhaol.  Adolygir y data hwn yn rheolaidd i sicrhau ei fod yn gywir ac yn mesur lefel yr angen.

Sefydlwyd grŵp gorchwyl a gorffen i gynghori'r Cyngor ar y gofyniad i ddatblygu polisi ar lefydd aros dros dro / stopio wedi'i negodi.  Yn dilyn casgliad ar y gwaith, bydd adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r pwyllgor perthnasol i'w ystyried.

# 10. Amrywiaeth yn y Gweithle

### Gwelliannau i Ddata Gweithlu CBSC

Ym mis Mehefin 2017, cynhaliodd yr adran Adnoddau Dynol ymarfer i ddarganfod sgiliau iaith aelodau staff er mwyn bodloni gofynion Safonau'r Gymraeg. Fel rhan o'r ymarfer hwn, manteisiwyd ar gyfle i gynnwys cwestiynau am fonitro nodweddion gwarchodedig at ddibenion cydraddoldeb, er mwyn glanhau'r data cyfredol a gedwir ar system gyflogres iTrent. Gweler **Atodiad C - Crynodeb o Ddata Gweithlu CBSC** am ragor o fanylion a dadansoddiad.

Isod, mae enghreifftiau mewn dau gategori lle y gwnaed gwelliannau clir dros y tair blynedd diwethaf i'r data a gofnodwyd.

### i) Cenedligrwydd

| **Cenedligrwydd (Cyfansymiau Corfforaethol)** | **31/03/16** | **31/03/17** | **31/03/18** |
|---|---|---|---|
| Prydeinig (Nid Ynysoedd y Sianel nac Ynys Manaw) | 631 | 751 | 888 |
| Seisnig | 52 | 62 | 71 |
| Gogledd Iwerddon | 4 | 3 | 3 |
| Gwyddelig | - | 3 | 4 |
| Cymreig | 1,522 | 1,722 | 1,903 |
| Albanaidd | 5 | 6 | 8 |
| Cernywaidd | 1 | 2 | 1 |
| Arall | 25 | 27 | 29 |
| Heb ddatgelu | 6,694 | 6,186 | 5771 |
| Anfodlon Datgan | **5** | 5 | 4 |
| **Cyfanswm yr Awdurdod** | **8,939** | **8,767** | **8,682** |

### ii) Cyfeiriadedd Rhywiol

| **Cyfeiriadedd Rhywiol (Cyfansymiau Corfforaethol)** | **31/03/16** | **31/03/17** | **31/03/18** |
|---|---|---|---|
| Deurywiol | 8 | 9 | 12 |
| Hoyw | 26 | 33 | 34 |
| Heterorywiol | 1,829 | 2,144 | 2,466 |
| Lesbiad | 14 | 14 | 16 |
| Arall | 19 | 18 | 24 |
| Heb ddatgelu | 6,909 | 6,421 | 6,014 |
| Anfodlon Datgan | 134 | 128 | 116 |
| **Cyfanswm yr Awdurdod** | **8,939** | **8,767** | **8,682** |

## Trosolwg o Raglen Hyfforddi 2017-2018

Roedd darparu rhaglen hyfforddi gynhwysfawr i staff ac aelodau etholedig ar faterion cydraddoldeb a'r Gymraeg, a chynnwys cyrsiau i ddysgu Cymraeg ac Iaith Arwyddion Prydain, yn llwyddiannus iawn eleni.

Yn gyfan gwbl, cofrestrodd **799** o aelodau i fynychu cyrsiau'n ymwneud â chydraddoldeb a'r Gymraeg.

## Hyfforddiant Cydraddoldeb

Cofrestrodd **688** o aelodau staff i fynychu cyrsiau penodol ar gydraddoldeb, fel y'u rhestrir yn y tabl canlynol:

| Teitl y Cwrs | Presenoldeb | Nifer a dynnodd yn ôl |
|---|---|---|
| Y 'Cynnig Rhagweithiol' | 125 | 16 |
| Ymwybyddiaeth Gwrth-gaethwasiaeth | 7 | 0 |
| Iaith Arwyddion Prydain (lefelau 1-4) | 14 | 1 |
| Hyfforddiant Ffrindiau Dementia | 42 | 11 (Canslwyd y Cwrs) |
| Ymwybyddiaeth Cydraddoldeb | 25 | 1 |
| Ymwybyddiaeth Ofalgar | 10 | 1 |
| Prevent (Gwrth-derfysgaeth) | 463 | 0 |
| Ymwybyddiaeth y Gymraeg | 2 | 2 (Canslwyd y Cwrs) |
| Gweithio gyda Cheiswyr Lloches | 0 | 0 (Canslwyd y Cwrs) |

Cynlluniwyd i ddarparu hyfforddiant ar ***Duedd Anymwybodol o ran Rhywedd wrth Wneud Penderfyniadau***, ac mae dyddiadau wedi'u trefnu ar gyfer Ebrill a Mehefin 2018.

Cynhaliodd y Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol bedair sesiwn hyfforddi ar y ***'Cynnig Rhagweithiol'***. Mae'r ***'Cynnig Rhagweithiol'*** yn ymwneud â deall a bodloni anghenion defnyddwyr gwasanaeth Cymraeg eu hiaith, a'u trin gydag urddas a pharch. Mae'r ***'Cynnig Rhagweithiol'*** yn gofyn am ddull rhagweithiol o gyflwyno gwasanaethau, sy'n sicrhau cael gwybod pa iaith mae'r defnyddiwr yn ei ffafrio a'i chofnodi adeg y cysylltiad cyntaf. Mae'r rhai a fynychodd yr hyfforddiant yn cynnwys gweithwyr cymdeithasol, uwch ymarferwyr, rheolwyr tîm a gweithwyr cymorth.

## Hyfforddiant Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili wrthi'n rhoi ei gynllun hyfforddiant Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol Caerffili ar waith ar gyfer y cyfnod 2017 i 2022+, i hyfforddi ei holl aelodau staff i fodloni gofynion y Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol. Mae cydymffurfio â'r Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol yn ofyniad Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015.

Gwnaed cynnydd da yn ystod 2017/18 i oresgyn anawsterau technegol TG yn gysylltiedig â defnyddio e-lwyfan dysgu Learning@Wales, dod o hyd i adnoddau ariannol a chreu gallu yn lleol i gyflwyno'r Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol. Mae'r ffocws presennol ar gydlynu a darparu hyfforddiant Grŵp 1 (Codi Ymwybyddiaeth) a Grŵp 2 (Gofyn a Gweithredu) i staff penodedig – yn unol â chyfarwyddyd Llywodraeth Cymru a Thîm Rhanbarthol Gwent Fwyaf ar Drais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol.

**Cynnydd Grŵp 1:**

- Ddiwedd Mawrth 2018, roedd 2121 o weithwyr presennol wedi cwblhau hyfforddiant Grŵp 1 (Codi Ymwybyddiaeth). Roedd 1926 o staff wedi'i gwblhau drwy'r hyfforddiant e-ddysgu a 195 o staff wedi'i gwblhau mewn sesiynau wyneb yn wyneb
- Mae hyn yn cyfateb i 28% o'r gweithlu cyfan, y targed statudol yw 100%

**Cynnydd Grŵp 2:**

- Ddiwedd Mawrth 2018, roedd 182 o staff wedi cwblhau hyfforddiant Grŵp 2, Gofyn a Gweithredu
- Mae hyn yn cyfateb i 11% o'r holl staff a enwyd i gwblhau hyfforddiant Grŵp 2.

**Aelodau Etholedig:**

- Ddiwedd Mawrth 2018, roedd 65 o Aelodau Etholedig wedi cwblhau hyfforddiant e-ddysgu Grŵp 1
- Mae hyn yn cyfateb i 89% o'r holl Aelodau Etholedig
- Hefyd, mae Aelodau Etholedig wedi gwylio ffilmiau'r Gyfres Cryfhau Arweinyddiaeth

Bydd y ffocws ar gyfer 2018/19 yn parhau ar gyflwyno hyfforddiant Grŵp 1 a Grŵp 2. Bwriedir cynnal 14 o sesiynau wyneb yn wyneb Grŵp 1 ym Mai/Mehefin 2018, wedi'u targedu at staff blaenoriaeth allweddol. Bydd y rhain yn parhau trwy gydol y flwyddyn. Targed y Fframwaith yw bod 100% o'r staff yn cwblhau hyfforddiant Grŵp 1, yn heriol. Mae gan CBS Caerffili weithlu mawr ac amrywiol

– bron i 8000 o staff, y bydd angen sesiynau wyneb yn wyneb ar bron i 2000 ohonynt oherwydd nad oes mynediad ganddynt i dechnoleg gwybodaeth – sy'n ddrud ac yn cymryd llawer o amser i'w cyflawni.

Bydd sesiynau Grŵp 2, Gofyn a Gweithredu, hefyd yn cael eu trefnu yn ystod 2018/19 ac eto'n cael eu targedu at staff blaenoriaeth allweddol. Cafwyd anawsterau yn rhanbarthol sydd wedi effeithio ar ein gallu i gyflwyno hyfforddiant Grŵp 2. Mae angen rhoi atebion ar waith sy'n creu capasiti yn rhanbarthol ac yn lleol, fel y gall mwy o staff gael eu hyfforddi.

Hefyd, bydd dogfennau polisi yn cael eu hadolygu i sicrhau eu bod yn adlewyrchu Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015 ac yn cyflawni ei gofynion.

## Hyfforddiant Iaith Gymraeg

Un o ofynion Safonau'r Gymraeg yn gysylltiedig â hyfforddiant staff yw darparu cyrsiau hyfforddiant iaith Gymraeg.

Ers 2001, mae **1667** o staff y Cyngor a staff sefydliadau partner wedi mynychu dosbarthiadau Cymraeg llafar, yn amrywio o gyrsiau blasu i ddechreuwyr llwyr, hyd at ac yn cynnwys cyrsiau Safon Uwch.

Mae'r Safonau perthnasol fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| 130 | Rhaid ichi ddarparu cyfleoedd yn ystod oriau gwaith –<br>(a) i'ch cyflogeion gael gwersi Cymraeg sylfaenol, a<br>(b) i gyflogeion sy'n rheoli pobl eraill gael hyfforddiant ar ddefnyddio'r Gymraeg yn eu rôl fel rheolwyr. |
| 131 | Rhaid ichi ddarparu cyfleoedd i'ch cyflogeion sydd wedi cwblhau hyfforddiant Cymraeg sylfaenol gael hyfforddiant pellach yn rhad ac am ddim er mwyn datblygu eu sgiliau yn yr iaith. |
| 132 | Rhaid ichi ddarparu cyrsiau hyfforddi er mwyn i'ch cyflogeion ddatblygu –<br>(a) ymwybyddiaeth o'r Gymraeg (gan gynnwys ymwybyddiaeth am hanes yr iaith a'i lle yn niwylliant Cymru);<br>(b) dealltwriaeth o'r ddyletswydd i weithredu yn unol â safonau'r Gymraeg;<br>(c) dealltwriaeth am y modd y gellir defnyddio'r Gymraeg yn y gweithle. |

Cafwyd cynnydd sylweddol yn nifer y staff a fynychodd hyfforddiant iaith Gymraeg yn ystod y flwyddyn dan sylw, a threfnodd y Cyngor hyfforddiant codi ymwybyddiaeth a Chymraeg llafar i staff ac aelodau etholedig.

Mae'r tabl canlynol yn dangos nifer y staff a gymerodd ran a nifer y cyrsiau a gynigiwyd:

| CWRS A GYNIGIWYD | NIFER Y CYRSIAU A GYNIGIWYD | NIFER Y STAFF A FYNYCHODD |
|---|---|---|
| 30 Wythnos | 33 | 47 |
| Cwrs blasu 2 ddiwrnod | 6 | 37 |
| Cwrs blasu 10 wythnos | 10 | 57 |
| Say Something in Welsh – Cwrs Cymraeg Ar-lein | 1 | 3 |
| Tynnwyd yn ôl | Dd/B | 4 |

Caiff y cyrsiau blasu 2 ddiwrnod eu cynnal ar y cyd â nifer o awdurdodau a sefydliadau eraill yn ne-ddwyrain Cymru. Maent yn cyfarfod yn fisol fel **Grŵp DEDDF** ac wedi bod yn cynnal y cyrsiau hyn yn flynyddol ers sawl blwyddyn. Mae'r cyrsiau hyn bob amser yn boblogaidd ac yn llwyddiannus iawn, ac mae Cyngor Caerffili yn cynnal dau gwrs ym mis Gorffennaf 2017, oherwydd y galw.

Yn 2017-2018, parhawyd i gyflwyno i staff y Cwrs Cymraeg 10 Wythnos a ddatblygwyd ar gyfer staff sy'n gweithio mewn gwasanaethau llinell flaen ac ar y dderbynfa, ac a dargedwyd yn bennaf at y meysydd gwasanaeth sydd wedi'u rhestru yn Safonau 65 a 65A.

Mae'r cyrsiau hyn wedi'u teilwra i staff sy'n gweithio mewn llyfrgelloedd a chanolfannau hamdden yn y 6 phrif dref yn y fwrdeistref sirol, yn Llancaiach Fawr, Canolfan Ymweld â Chaerffili, y Tŷ Weindio, staff derbynfa Tŷ Penallta a staff sy'n gweithio yn y Swyddfa Gofrestru. I gydymffurfio â Safonau 65 a 65A, dylai staff sy'n gweithio yn y lleoliadau hyn allu darparu gwasanaeth derbynfa dwyieithog o 31 Medi 2018 ymlaen.

Hefyd, trefnom Gwrs Ymwybyddiaeth o'r Gymraeg ym mis Rhagfyr 2017, ond oherwydd niferoedd isel, bu'n rhaid canslo'r cwrs gan nad oedd yn ymarferol ei gynnal.

## Ffigurau Staff Caerffili – 2001-2018

Mae'r tabl canlynol yn rhoi nifer y staff sydd wedi mynychu cyrsiau iaith Gymraeg ers 2001.

| Blwyddyn Academaidd | Cyrsiau Blwyddyn | Cyrsiau Blasu | Cyfanswm nifer y dysgwyr | *(Niferodd a dynnodd yn ôl)* |
|---|---|---|---|---|
| 2001 – 2002 | 46 | 0 | 46 | *( 0 )* |
| 2002 – 2003 | 66 | 0 | 66 | *(11)* |
| 2003 – 2004 | 84 | 37 | 121 | *(17)* |
| 2004 – 2005 | 70 | 43 | 113 | *(15)* |
| 2005 – 2006 | 61 | 77 | 138 | *(10)* |
| 2006 – 2007 | 66 | 27 | 93 | *(12)* |
| 2007 – 2008 | 68 | 38 | 106 | *(7)* |
| 2008 – 2009 | 43 | 58 | 101 | *(9)* |
| 2009 – 2010 | 48 | 50 | 98 | *(13)* |
| 2010 – 2011 | 50 | 33 | 83 | *(1)* |
| 2011 – 2012 | 52 | 21 | 73 | *(2)* |
| 2012 – 2013 | 52 | 22 | 74 | *(3)* |
| 2013 – 2014 | 61 | 142 | 203 | *(16)* |
| 2014 – 2015 | 56 | 58 | 114 | *(13)* |
| 2015 – 2016 | 40 | 28 | 68 | *(14)* |
| 2016 - 2017 | 45 | 14 | 59 | *(3)* |
| 2017 – 2018 | 50 | 61 | 111 | *(4)* |
| **CYFANSYMIAU** | **958** | **709** | **1667** | ***(150)*** |

## Recriwtio a'r Gymraeg

**Safon 136**

| |
|---|
| Pan fyddwch yn asesu'r anghenion ar gyfer swydd newydd neu swydd wag, rhaid ichi asesu'r angen am sgiliau yn y Gymraeg, a'i chategoreiddio fel swydd pan fo un neu ragor o'r canlynol yn gymwys –<br>(a) bod sgiliau yn y Gymraeg yn hanfodol;<br>(b) bod angen dysgu sgiliau yn y Gymraeg pan benodir rhywun i'r swydd;<br>(c) bod sgiliau yn y Gymraeg yn ddymunol; neu<br>(ch) nad yw sgiliau yn y Gymraeg yn angenrheidiol. |

Roedd cyfanswm o **565** o swyddi newydd a swyddi gwag a hysbysebwyd ers 30 Mawrth 2017 wedi'u categoreiddio fel swyddi lle'r oedd:

(i) sgiliau yn y Gymraeg yn hanfodol
**6**

(ii) angen dysgu sgiliau yn y Gymraeg pan benodir rhywun i'r swydd
**8**

Mae cyrsiau hyfforddiant Iaith Gymraeg wedi bod ar gael yn rhad ac am ddim i'r holl staff ers blwyddyn academaidd 2001-2002 (gweler **Adran 3** gynt)

(iii) sgiliau yn y Gymraeg yn ddymunol,
**529 (yn ddiofyn, hysbysebir pob swydd wag gan ddatgan fod y Gymraeg yn ddymunol)**

(iv) lle nad oedd sgiliau yn y Gymraeg yn angenrheidiol
**1**

Cynhelir Asesiadau Sgiliau Cymraeg yn gysylltiedig â swyddi gwag/swyddi newydd yn unol â gofyniad Safon 136, ac mae Adnoddau Dynol wedi bod yn cofnodi'r rhain ers mis Hydref 2016. Mae'r asesiad a'r dystiolaeth ategol yna'n llunio rhan o'r achos busnes sy'n angenrheidiol er mwyn cael caniatâd i lenwi swydd wag neu greu rhai newydd.

Rhaid i bob swydd wag neu swydd newydd gael Asesiad Sgiliau Cymraeg a chaiff pob swydd ei hysbysebu gyda'r **Gymraeg yn ddymunol** fel gofyniad safonol, a bydd yr asesiad yn ystyried p'un a oes angen newid hwnnw i ddatgan bod y **Gymraeg yn hanfodol**.

Rhwng 1 Ebrill 2017 a 31 Mawrth 2018, hysbysebwyd **21** o swyddi heb i'r Asesiad Sgiliau Cymraeg gael ei gwblhau. Gofynnodd yr adran Adnoddau Dynol i'r rheolwyr a oedd yn recriwtio ddarparu'r asesiadau, ond ni chafwyd ymatebion; felly hysbysebwyd y swyddi heb yr Asesiad Sgiliau Cymraeg gofynnol.

Mae'r Pennaeth Gwasanaethau Pobl wedi cytuno na chaiff unrhyw swyddi newydd neu swyddi gwag eu hysbysebu oni bai bod Asesiad Sgiliau Cymraeg wedi'i gwblhau. Hefyd, bydd y Canllawiau Recriwtio a Dewis yn cael eu diweddaru, gan roi gwybodaeth gliriach i reolwyr sy'n recriwtio, am gynnal Asesiad Sgiliau Cymraeg.

# 11. Cydymffurfiaeth Gorfforaethol

**Dadansoddiad o gwynion a ddaeth i law yn ystod 2018 - 2019**

Mae Adran **4** y **Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2016-2020** yn diffinio'r hyn a ystyrir yn gŵyn o safbwynt materion Cydraddoldeb a'r Gymraeg. Mae hyn er mwyn cynnal cysondeb ymagwedd wrth ymdrin ag unrhyw gŵyn o'r natur hon gan fod y Cyngor yn gweithredu gwasanaeth Cydraddoldeb a'r Gymraeg integredig.

### *v) Cwynion*

4.10 Gellir diffinio cwyn fel sefyllfa lle nad yw aelod o'r cyhoedd, neu grŵp, yn fodlon â safon gwasanaeth, neu â gweithredu neu ddiffyg gweithredu gan y Cyngor neu aelod o staff.

4.11 Ymdrinnir â phob cwyn yn unol â'r polisi Cwyno corfforaethol, ond gyda'r angen ychwanegol i gyfieithu'r holl ohebiaeth yn ôl a blaen ar y mater, yn unol â'r **Canllawiau Cyfieithu Iaith Gymraeg 2016** ac unrhyw fater cyfieithu, dylunio neu fformatio arall.

4.12 Caiff cwynion eu monitro'n llawn fesul categori Cydraddoldeb ac yn nodi pa bynnag iaith a fformat cawsant eu gwneud yn y lle cyntaf.

4.13 Gellir cyflwyno cwynion yn ysgrifenedig, dros y ffôn neu trwy anfon e-bost at gyfeiriad e-bost penodol y Cyngor sef **cwynion@caerffili.gov.uk**.

4.14 Mae mwy o gymorth ar gael o fewn y ddogfen **Canllaw Cwynion Cydraddoldeb a'r Gymraeg**

Mae data cwynion am Gydraddoldeb a'r Gymraeg yn ffurfio rhan o'r adroddiadau chwarterol i'r Pwyllgor Archwilio fel rhan o'r broses Cwynion Corfforaethol lle bo hynny'n briodol, ac mae'r Uwch Swyddog Polisi (Cydraddoldeb a'r Gymraeg) hefyd nawr yn rhan o'r Grŵp Dysgu o Gwynion Corfforaethol sy'n cwrdd yn chwarterol i drafod cwynion penodol a thrawsbynciol.

Mae cwynion corfforaethol yn gwynion o ganlyniad i fethiant o ran proses neu fethiant i weithredu polisi'r Cyngor yn gywir. Mae'r rhain yn gwynion a allai, yn y pen draw, gael eu hanfon at yr Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus neu at Gomisiynydd y Gymraeg, er enghraifft. Caiff materion cod ymddygiad yn ymwneud ag ymddygiad neu agwedd staff eu trin drwy gyfrwng prosesau Adnoddau Dynol mewnol.

Fodd bynnag, mae cwynion ynghylch Cydraddoldeb a'r Gymraeg yn rhywfaint o hybrid, oherwydd gall methiant proses fod o ganlyniad i agweddau neu farn aelod o staff tuag at grŵp penodol, er enghraifft.

Yn ystod 2017-2018, ni chafwyd unrhyw gwynion am gydraddoldeb, ond cafwyd **7** cais am wasanaeth a **4** cwyn, bob un ohonynt yn ymwneud â'r Gymraeg. Ymatebwyd i bob un o'r rhain o fewn y terfynau amser, a chawsant eu cynnal.

Roedd **4** o'r **7** cais am wasanaeth yn ymwneud â gwallau ar arwyddion ac arwyddion ffyrdd. Cynhaliwyd trafodaethau gyda'r adrannau perthnasol i sicrhau bod y Tîm Cydraddoldeb a'r Gymraeg yn prawf-ddarllen arwyddion, cyn eu creu.

Ym mis Ionawr 2018, cyfarfuom â Swyddog Cydymffurfio o swyddfa'r Comisiynydd Iaith i drafod ein perfformiad blynyddol o ran Safonau'r Gymraeg. Roedd rhywfaint o'r adborth a gawsom yn ymwneud â'r angen i ni gynnwys testun ar dudalen y wefan ar Safonau'r Gymraeg, yn rhoi gwybod i aelodau'r cyhoedd sut i gwyno am gydymffurfiaeth y Cyngor â Safonau'r Gymraeg neu fethiant ar ran y Cyngor i ddarparu gwasanaeth dwyieithog, ac at bwy i gyfeirio'u cwyn.

Bellach, mae'r testun a ychwanegwyd yn cynnwys dolen i wefan y Comisiynydd Iaith; Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili – Safonau Iaith Gymraeg



## Cydymffurfio â'r Safonau Iaith Gymraeg

Cyhoeddir adroddiad monitro blynyddol ar wefan y Cyngor bob haf i adrodd ar ei gydymffurfiad â'r Safonau Iaith Gymraeg.

Mae'r adroddiad blynyddol yn ymdrin â'r pedwar maes sy'n ofynnol o dan y fframwaith rheoleiddio ac mae'n dangos ymrwymiad parhaus y Cyngor i ddarparu gwasanaethau dwyieithog i'r cyhoedd ac i aelodau'r staff.

Mae'r pedwar maes y mae'n adrodd arnynt fel a ganlyn:

- Cwynion gan Aelodau'r Cyhoedd
- Sgiliau Iaith Staff
- Darpariaeth Hyfforddiant Cyfrwng Cymraeg
- Recriwtio i Swyddi Gwag

Daeth 5ed Cynllun Iaith Gymraeg y Cyngor i ben ar 31 Mawrth 2016 ac fe'i disodlwyd gan ymrwymiad yng Nghynllun Cydraddoldeb Strategol 2016-2020 diweddaraf y Cyngor. Mae pedwar o'r Amcanion Cydraddoldeb Strategol yn cynnwys yn benodol materion y Gymraeg, sef:

| | |
|---|---|
| Amcan Cydraddoldeb 4 - | Gwella Mynediad Cyfathrebu |
| Amcan Cydraddoldeb 6 - | Cydymffurfiaeth â Safonau'r Gymraeg |
| Amcan Cydraddoldeb 10 - | Amrywiaeth yn y Gweithle |
| Amcan Cydraddoldeb 11 - | Cydymffurfiaeth Gorfforaethol |

Mae Cabinet a Thîm Rheoli Corfforaethol y Cyngor wedi bod yn cymryd rhan weithredol mewn trafodaethau a dadleuon ynghylch gweithredu'r Safonau'r Gymraeg ers mis Ionawr 2014, ac wedi derbyn nifer o adroddiadau a chyflwyniadau er mwyn sicrhau eu bod wedi'u hysbysu'n llawn ynghylch cynnydd cyn y dyddiad Hysbysiad Cydymffurfio terfynol, sef 23ain Ionawr 2017.

Mae Adroddiad Blynyddol Safonau'r Gymraeg 2017-2018 i'w weld yn llawn ar wefan y Cyngor www.caerffili.gov.uk/cydraddoldeb

I weld y gwaith mae'r Cyngor wedi'i wneud i hyrwyddo'r Gymraeg a Safonau'r Gymraeg yn gadarnhaol yn ystod 2017-2018, gweler **Adran 6 – Cydymffurfio â Safonau'r Iaith Gymraeg**.

# 12. Enghreifftiau o Arfer Da / Teilwra Gwasanaethau

Mae'r enghreifftiau canlynol yn dangos sut mae meysydd gwasanaeth y Cyngor wedi teilwra'u gwaith dydd i ddydd i weddu i ofynion ac anghenion y defnyddwyr gwasanaeth unigol. Mae’r cyfan ohonynt yn enghreifftiau rhagorol o roi egwyddorion Cydraddoldeb a’r Gymraeg ar waith yn ymarferol er budd pobl yn y fwrdeistref sirol.

## a) Cludiant Teithwyr

Cyhoeddwyd amserlen bysys ddwyieithog gyntaf Cyngor Caerffili yn 2017. Bu’r Tîm Cydraddoldeb a’r Gymraeg yn gweithio’n agos iawn gyda’r Uned Cludiant Integredig i sicrhau bod yr holl ddeunyddiau a gynhyrchir yn ddwyieithog a’u bod yn cydymffurfio â’r Safonau Iaith Gymraeg.







## b) Hyrwyddo Mewnol

Roedd y Tîm Cydraddoldeb a’r Gymraeg ynghlwm wrth Raglen Sefydlu’r Gwasanaethau Cymdeithasol ar gyfer staff newydd yn yr awdurdod. Lluniwyd y rhaglen sefydlu mewn arddull ‘gwib ganlyn’, lle byddai aelodau staff newydd yn symud o fwrdd i fwrdd yn gwrando ac yn dysgu am y gwasanaethau allweddol sy’n cael eu darparu gan y Cyngor a pha ddeddfwriaeth sy’n llywio’r ffyrdd y dylai gwasanaethau gael eu cyflwyno.

Hefyd, cymerodd y tîm ran mewn digwyddiad gwybodaeth a drefnwyd i aelodau etholedig newydd. Yn y digwyddiad, nod y tîm oedd codi ymwybyddiaeth aelodau o ddeddfwriaeth Cydraddoldeb a’r Gymraeg, a rhoi gwybodaeth iddynt am gyrsiau Cydraddoldeb a’r Gymraeg, a rhifau ffôn ar gyfer cael rhagor o wybodaeth.



c) **Criw Cymraeg – Ysgol Gynradd Rhiw Syr Dafydd**

Yn gynt eleni, aeth Uwch Swyddog Polisi Cydraddoldeb a'r Gymraeg, ynghyd â Golygydd Cwmni, sef cylchgrawn misol Cymraeg Caerffili, a Swyddog Digidol Menter Iaith Caerffili, i Ysgol Gynradd Rhif Syr Dafydd i siarad â'r Criw Cymraeg sy'n weithgar iawn yn yr ysgol. Cymaint yw poblogrwydd, mae ganddynt restr aros o ddisgyblion sydd eisiau ymuno.



Roedd yn hyfryd gweld yr holl waith gwych maen nhw wedi bod yn ei wneud o dan gynllun Campws Cymraeg y Gwasanaeth Cyflawni Addysg, y maent yn un o'r ysgolion peilot ynddo. Mae Cynllun y Campws Cymraeg yn sicrhau bod yr iaith Gymraeg yn fyw ac yn ffynnu yn ein hysgolion cyfrwng Saesneg ac mae'n debyg i'r Siarter Iaith Gymraeg sy'n bodoli yn ein hysgolion cyfrwng Cymraeg.

Siaradodd yr ymwelwyr â'r 'Criw' am eu gwaith yn hyrwyddo ac yn diogelu'r Gymraeg. Pwysleisiwyd wrth y 'Criw' eu bod yn gwneud gwaith pwysig, a fydd yn helpu i gynnal dyfodol y Gymraeg, oherwydd nhw fydd siaradwyr Cymraeg y dyfodol.

ch) **Hyrwyddo Allanol**

Digwyddiad arall yr aeth y tîm iddo oedd digwyddiad Sgil Iaith Sgil Gwaith a gynhaliwyd gan Goleg y Cymoedd. Diben y digwyddiad oedd hyrwyddo gwasanaethau'r Cyngor ac annog myfyrwyr â sgiliau Cymraeg i ystyried gyrfa gyda'r Cyngor.




Mae galw cynyddol ar y Cyngor i ddarparu gwasanaethau i'r cyhoedd drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae angen i fyfyrwyr sy'n gadael yr ysgol sylweddoli gwerth cael sgiliau Cymraeg wrth adael byd addysg a symud i waith, ac ystyried y Gymraeg wrth ddewis astudio cwrs a llwybr gyrfaol.

## d) Mis Hanes Pobl LDHT

Bu baner lliwiau'r enfys yn cyhwfan yn falch ym mhencadlys Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili, Tŷ Penallta, trwy gydol mis Chwefror, i ddathlu a dangos cefnogaeth i Fis Hanes Pobl LDHT.

Nod Mis Hanes Pobl LDHT yw hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth trwy gynyddu gweledeedd pobl lesbiaidd, hoyw, deurywiol a thrawsrywiol, eu hanes, eu bywyd a'u profiadau. Nod arall yw codi ymwybyddiaeth a gwella addysg am faterion sy'n effeithio ar y gymuned pobl LDHT.

Hefyd, mae Gwasanaeth Ieuenctid Caerffili yn chwarae rhan annatod yn hyrwyddo amrywiaeth a chydraddoldeb mewn cymunedau lleol, trwy brosiect grŵp cymorth sydd â'r nod o gefnogi pobl ifanc lesbiaidd, hoyw, deurywiol, trawsrywiol, cwiar/queer a phobl ifanc eraill (LHDTC+) sy'n cwestiynu eu rhywedd a/neu eu rhywioldeb.

Ers ei gyflwyno, mae'r prosiect, a gynhelir ar ddydd Sadwrn olaf y mis yn Llyfrgell y Coed-duon, wedi mynd o nerth i nerth ac mae'n cynnig cymorth rheolaidd i ryw 35 o bobl ifanc, ac mae rhai hyd yn oed yn mynychu'r prosiect o fwrdeistrefi sirol cyfagos.

Cafodd stondin ymwybyddiaeth ei arddangos yn Nhŷ Penallta hefyd i staff ac ymwelwyr gael rhagor o wybodaeth. At hynny, fe wnaeth staff o bob rhan o'r sefydliad wisgo lasys lliwiau'r enfys a goleuwyd Tŷ Penallta yn lliwiau'r enfys i ddangos cefnogaeth ar gyfer y digwyddiad blynyddol.




Hefyd, rhannwyd cefnogaeth i'r digwyddiad ar sianeli'r cyfryngau cymdeithasol.






## dd) Mis Hanes Pobl Dduon

Mae Mis Hanes Pobl Dduon yn fis blynyddol rhyngwladol sydd â'r nod o gydnabod hanes, profiadau a llwyddiannau cymunedau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig.

Cynhelir y digwyddiad yn ystod mis Hydref yn y DU – mae wedi cael ei ddathlu ym Mhrydain ers 1987. Mae Mis Hanes Pobl Dduon yn amser i gofio a dathlu pobl o'r gorffennol a phobl sy'n cyfrannu at ein cymdeithas heddiw.

Mae Cymru wedi bod yn dathlu Mis Hanes Pobl Dduon yn swyddogol ers 10 mlynedd ac mae'n cynnal nifer o ddigwyddiadau ar hyd a lled Cymru yn ystod mis Hydref er mwyn cydnabod yr effaith gadarnhaol mae pobl o dras Affricanaidd wedi'i chael ac yn parhau i'w chael ar ddiwylliant a hanes Cymru.

Dathlodd Cyngor Caerffili Fis Hanes Pobl Dduon trwy arddangos cyflwyniad byr yn Nhŷ Penallta, ynghyd â thaflenni gwybodaeth i staff ac ymwelwyr fynd â nhw gyda nhw i'w darllen.

## e) Diwrnod Cofio'r Holocost

Cafodd Disgyblion Ysgol Lewis Pengam ymweliad gan Oroeswr yr Holocost, Joanna Millan, a siaradodd am y ffordd y gwnaeth erlyn Pobl Iddewig yn ystod yr Ail Ryfel Byd effeithio ar ei theulu, a newid ei bywyd am byth.

Clywodd disgyblion am enedigaeth Joanna i deulu o Iddewon ym mis Awst 1942 ym Merlin, ac y rhoddwyd yr enw Bela Rosenthal iddi. Ddiwedd Chwefror 1943, cipiwyd ei thad o strydoedd Berlin a'i anfon i Auschwitz-Birkenau; pan gyrhaeddodd yno, cafodd ei lofruddio. Yn nes ymlaen yn y flwyddyn honno, ym mis Mehefin, aethpwyd â hi a'i mam o'u cartref a'u hanfon i'r Theresienstadt Ghetto.

Yn y gwersyll, fe wnaeth ei mam ddal tiwberciwlosis a gadawyd Joanna yn amddifad, ac ar ei phen ei hun. Soniodd Joanna am y ffordd y gwnaeth help gan oedolion yn y gwersyll achub ei bywyd hi a bywyd plant eraill cyn y rhyddhawyd y gwersyll gan y Groes Goch ar 3 Mai 1945. Clywodd disgyblion sut roedd Joanna wedi ymgartrefu ym Mhrydain ar ôl y rhyfel, gydag enw a bywyd newydd, ond nid yw wedi anghofio'i gwreiddiau ac mae wedi treulio blynyddoedd lawer fel oedolyn yn olrhain hanes ei theulu ac yn rhannu ei phrofiadau yn ystod yr Holocost.



## f) Diwrnod Rhyngwladol y Menywod – mae ‘Pŵer merched’ yn ffynnu yng Ngwent!

Mae Diwrnod Rhyngwladol y Menywod wedi cael ei ddathlu ledled y byd ers dechrau’r ugeinfed ganrif. Yn wreiddiol, ei nod oedd rhoi fforwm i fenywod ymgyrchu dros gydraddoldeb a hawliau menywod. Gydag amser, mae wedi esblygu a, bellach, ym mis Mawrth bob blwyddyn, mae miloedd o ddigwyddiadau’n cael eu cynnal ledled y byd i gydnabod y cynnydd a wnaed, ysbrydoli menywod a dathlu’u llwyddiannau.

Menywod sy’n dal prif swydd tri o’r pum cyngor yn ardal Gwent, sy’n dangos bod ‘pŵer merched’ yn ffynnu, heb os nac oni bai. Ddydd Iau, 8 Mawrth, dathlom lwyddiannau Christina Harrhy, Alison Ward a Michelle Morris, o Gynghorau Bwrdeistref Sirol Caerffili, Torfaen a Blaenau Gwent, yn ôl eu trefn.

Ymunodd Christina Harrhy â Chyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn 2015 fel Cyfarwyddwr Corfforaethol Cymunedol, ar ôl dros 25 mlynedd o brofiad mewn llywodraeth leol, cyn ymgymryd â swydd y Prif Weithredwr Dros Dro yn Ionawr eleni. Cafodd ei magu yng Nghaerffili gan gael ei haddysg yn Ysgol Lewis i Ferched, Ystrad Mynach, cyn mynd ymlaen i astudio i fod yn Beiriannydd Sifil Siartredig, yn Gymrawd Sefydliad y Peirianwyr Sifil ac yn Gymrawd y Sefydliad Siartredig Priffyrdd a Chludiant.

Mae Alison Ward yn Brif Weithredwr Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen. Cafodd ei magu yn Swydd Henffordd ac astudiodd y gyfraith ym Mhrifysgol Caerwysg. Ymunodd â Chyngor Gorllewin Morgannwg fel Cyfreithiwr Gofal Plant ac arbenigodd yn y maes hwnnw o’r gyfraith hyd nes i Lywodraeth Leol gael ei had-drefnu. Bu’n gweithio i CBS Castell-nedd Port Talbot fel Cyfarwyddwr Cynorthwyol Gwasanaethau Cymdeithasol a Thai, ac ymunodd â Thorfaen yn 2002 fel Prif Weithredwr Cynorthwyol, cyn cael ei phenodi’n Brif Weithredwr ym mis Tachwedd 2004. Mae’n un o’r Prif Weithredwyr awdurdod lleol sydd wedi gwasanaethu am y cyfnod hiraf yng Nghymru.

Ymunodd Michelle Morris â Chyngor Blaenau Gwent i ymgymryd â swydd newydd y Rheolwr Gyfarwyddwr ym mis Hydref 2017, gan ddod â chyfoeth o brofiad o lywodraeth leol gyda hi. Cafodd Michelle ei magu yn Sir Benfro ac mae ganddi dros 20 mlynedd o brofiad o weithio mewn Llywodraeth Leol yng Nghymru a’r Alban, gan gynnwys swyddi uwch gyda Chyngor Sir Caerfyrddin a Dinas a Sir Abertawe, a swydd Dirprwy Brif Weithredwr yr Highland Council am nifer o flynyddoedd.



Ychwanegodd Prif Weithredwr Chwarae Teg, Cerys Furlong: “Mae’n wych gweld menywod ar frig tri chyngor yn ardal Gwent. Dathlu’r math hwn o gynnydd yw union ddiben Diwrnod Rhyngwladol y Menywod. Rydym yn gwybod, yn gyffredinol, bod menywod wedi’u tangynrychioli mewn swyddi uwch ar draws bob sector. Mae hyn yn ddrwg i fenywod ac yn ddrwg i’r economi.

Mae amrywiaeth yn y gweithle ac mewn swyddi arwain yn golygu bod ystod ehangach o safbwyntiau o gwmpas y bwrdd. Mae hynny nid yn unig yn dda i fusnes, yn achos cynghorau lleol, mae’n golygu bod gwell gwasanaethau cyhoeddus sy’n bodloni anghenion y gymuned gyfan yn cael eu darparu.

Mae Chwarae Teg yn gweithio gyda busnesau a sefydliadau ledled Cymru i helpu i wella prosesau recriwtio a strwythurau mewnol y gweithle, ac i fynd i’r afael â rhwystrau i fenywod.”

Mae rhagor o wybodaeth am Ddiwrnod Rhyngwladol y Menywod i’w gweld ar [https://www.internationalwomensday.com](https://www.internationalwomensday.com)

# ATODIAD A – Datganiad i'r Wasg Stonewall

**Cydnabyddiaeth i Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili am ei hymdrechion i fynd i'r afael â bwlio homoffobig, biffobig a thrawsffobig mewn ysgolion**

Mae Stonewall, sef elusen cydraddoldeb lesbiaidd, hoyw, deurywiol a thrawsrywiol Prydain, wedi enwi Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili fel yr awdurdod lleol sydd wedi gwella orau ym Mhrydain o ran mynd i'r afael â bwlio homoffobig, biffobig a thrawsffobig, a dathlu gwahaniaeth, mewn ysgolion.

Daw hyn wrth i'r elusen gyhoeddi *Mynegai Cydraddoldeb Addysg 2016,* sy'n rhestru'r 10 awdurdod lleol gorau ym Mhrydain ac yn enwi dau sydd wedi ennill gwobrau eraill am eu hymdrechion.

Mae'r Mynegai yn mesur arferion a pholisi yn yr holl awdurdodau lleol sy'n cymryd rhan. Cyflwynodd 50 o awdurdodau lleol gynigion ar gyfer Mynegai 2016, y mwyaf cystadleuol hyd yma.

Fe wnaeth Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili greu argraff gyda'i ymroddiad i hyrwyddo parch o bob tu a bod pob person ifanc yn gallu cael at wasanaethau'n gyfartal, ni waeth beth yw eu cyfeiriadedd rhywiol neu eu hunaniaeth o ran rhywedd. Darparwyd arweiniad ysgrifenedig i'r holl ysgolion yn yr awdurdod lleol yn unol â'u dyletswyddau a'u cyfrifoldebau o ran bwlio ar sail rhagfarn. Mae'r cyngor yn datgan yn benodol mewn dogfennau ysgrifenedig bod yn rhaid i ysgolion fynd i'r afael â phob math o fwlio, gan gynnwys bwlio homoffobig, biffobig a thrawsffobig, a'i fonitro. Ac mae gwaith ar y cyd yn mynd rhagddo i lunio arweiniad i ysgolion ar reoli materion traws. Mae hyn yn cynnwys amrywiaeth o wersi, a ddatblygwyd i fynd i'r afael â bwlio a chynnwys materion LHDT ar draws y cwricwlwm.

Hefyd, mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili wedi datblygu panel a'i brif swyddogaeth yw sicrhau bod asiantaethau penodedig allweddol yn dod ynghyd mewn partneriaeth i sicrhau bod Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn amgylchedd hapus a diogel i bob person ifanc.


Meddai Keri Cole, Prif Swyddog Addysg Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili: "Rydyn ni wedi cymryd rhan ym Mynegai Cydraddoldeb Addysg Stonewall ers dwy flynedd ac rydym yn gwerthfawrogi'r cyfle i archwilio'n gwaith yn flynyddol a gweithio yn unol â chynllun gweithredu er mwyn gwella'n harferion yn gyson. Mae'r Mynegai yn ein herio ni i sicrhau ein bod yn datblygu'r gwaith hwn ac yn gwneud gwahaniaeth i bobl ifanc LDHT ar lefel y sir."


Ychwanegodd y Cynghorydd Derek Havard, yr Aelod Cabinet dros Addysg a Dysgu Gydol Oes, "Mae Cyngor Caerffili yn falch iawn bod y gwaith gwerthfawr sy'n cael ei wneud wedi cael ei gydnabod gan Stonewall".

Meddai Andrew White, Cyfarwyddwr Stonewall Cymru, "Mae Caerffili wedi gwneud ymdrech arbennig â'u cynnig i'r Mynegai Cydraddoldeb Addysg eleni, ac rydym wrth ein bodd eu bod wedi ennill gwobr Stonewall ar gyfer yr Awdurdod Lleol sydd wedi Gwella Fwyaf. Mae gennym rwydwaith gwych o awdurdodau lleol sy'n Bencampwyr Addysg, sydd oll wedi cyflawni gwaith rhagorol ac rydym yn falch iawn bod un ohonynt wedi derbyn cydnabyddiaeth ledled Prydain.

## ATODIAD B – Canllaw Nam ar y Synhwyrau

**NODWCH: Mae'r canllaw yn Saesneg yn unig oherwydd canllaw ar gyfer staff ydyw.**





# How to communicate with someone with a Sight LOSS

- Use a normal talk tone and talk directly to the person with sight loss. If they are with someone else, do not talk through them.
- Use descriptive language when talking to the person with sight loss, enabling them to understand more clearly the information you are giving them.

  **For example:** 'The door is in front of you and to the left.'
- Introduce yourself by name and the nature of your work.

  **For example:** 'My name is Sarah and I am a receptionist.'
- Don't be afraid to use words such as **'LOOK'** and **'SEE'**. Use these words naturally within a sentence as you normally would.
- Always inform a person with sight loss if there is another person approaching or leaving them.
- A person with sight loss will not necessarily see where you are when you call their name.

  **Do not** move until they have located you. Let them know if you are moving away and returning.

CAERPHILLY COUNTY BOROUGH COUNCIL
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL CAERFFILI

RNIB Cymru
Yn cefnogi pobl â cholled golwg
Supporting people with sight loss



# How to communicate with someone with a Hearing LOSS

- **Always ask:** even if someone's wearing a **hearing aid**, ask if they need to lip read you.
- **Make sure** you have the person's **attention** before you start speaking.
- Find a place to talk that has **good lighting**, away from noise and distractions.
- **Always face** the person you're talking to and do not have the light behind them.
- **Speak clearly**, not too slowly, and use normal lip movements, facial expressions & gestures. A person who lip reads understands people best when they **speak normally**.
- Check that what you're saying is being understood, and if someone doesn't understand what you've said, try saying it in a different way.
- **Keep your voice down:** it's uncomfortable for a hearing aid user if you shout, and it appears aggressive.
- **Get to the point:** use plain language and don't waffle.
- **British Sign Language** (BSL) – don't talk to the interpreter.

CAERPHILLY COUNTY BOROUGH COUNCIL
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL CAERFFILI

ACTION ON HEARING LOSS
CYMRU
A national charity since 1911

# ATODIAD C – Crynodeb o Ddata Gweithlu CBSC

Mae'r wybodaeth ganlynol yn ddata lefel uchel o'r hyn y mae system gyflogres *iTrent* yn ei ddal ar 31 Mawrth 2018 ynglŷn â phroffil gweithlu Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili, o ran nodweddion gwarchodedig a gallu ieithyddol y staff.

Mae cofnodi'r wybodaeth hon yn ofyniad o fewn y Cynllun Cydraddoldeb Strategol. Trwy gymharu'r ffigurau hynny sydd ar gael ar 31 Mawrth 2015 a 2016 gyda'r rheini ar 31 Mawrth 2017 (gan gofio mai ychydig iawn o recriwtio allanol sy'n cael ei wneud) rydym wedi gallu dangos cynnydd yn y niferoedd a gofnodwyd. Ystyrir bod hyn yn digwydd oherwydd gwell cofnodi data a glanhau data cofnodion y staff presennol.

Ychwanegwyd yr opsiwn **Anfodlon Datgan** at y data cyflogres ar draws pob categori fel dewis yn ystod y flwyddyn ariannol hon, gan nad oedd wedi bod yn ddewis ar gyfer pob nodwedd warchodedig yn flaenorol.

- Mae data ar Rywedd, Ethnigrwydd ac Anabledd yn cael ei ddangos ar hyn o bryd fesul Cyfadran.
- Mae data ar Grefydd neu Gred a data Cyfeiriadedd Rhywiol yn cael ei ddangos ar hyn o bryd fesul cyfansymiau Corfforaethol yn unig. Mae data wedi gwella yn ystod y flwyddyn ariannol ddiwethaf.
- Mae Gallu Ieithyddol ar gael fesul Maes Gwasanaeth, ond mae'r data'n cael ei ddarparu yma fel cyfansymiau Corfforaethol, er gwybodaeth.
- Nid yw gwybodaeth arall wedi cael ei chyflwyno, gan nad yw'r categorïau'n dangos unrhyw gofnodion ar hyn o bryd.

| **Rhywedd fesul Cyfadran** | **Gwrywaidd** | **Benywaidd** | **Heb ei Ddatgelu** |
|---|---:|---:|---:|
| Cymunedau | 1,254 | 1,116 | 0 |
| Gwasanaethau Corfforaethol | 197 | 317 | 0 |
| Addysg a Hamdden | 717 | 3,472 | 0 |
| Gwasanaethau Cymdeithasol | 252 | 1,935 | 0 |
| **Cyfanswm yr Awdurdod** | **2,356** | **6,326** | **0** |

| **Anabledd fesul Cyfadran** | **Anabledd wedi'i Gofnodi** | **Ddim yn Anabl** | **Heb ei Ddatgelu** | **Anfodlon Datgan** |
|---|---:|---:|---:|---:|
| Cymunedau | 59 | 2159 | 150 | 2 |
| Gwasanaethau Corfforaethol | 17 | 484 | 10 | 3 |
| Addysg a Hamdden | 57 | 3636 | 493 | 3 |
| Gwasanaethau Cymdeithasol | 60 | 2002 | 124 | 1 |
| **Cyfanswm yr Awdurdod** | **178** | **7904** | **591** | **9** |

| Ethnigrwydd fesul Cyfadran | Gwyn | Du/LlE | Heb ei Ddatgelu | Anfodlon Datgan |
|---|---|---|---|---|
| Cymunedau | 2,232 | 20 | 117 | 1 |
| Gwasanaethau Corfforaethol | 494 | 11 | 9 | 0 |
| Addysg a Hamdden | 3,683 | 25 | 479 | 2 |
| Gwasanaethau Cymdeithasol | 2,093 | 29 | 65 | 0 |
| **Cyfanswm yr Awdurdod** | **7,960** | **80** | **639** | **3** |

| Crefydd neu Gred (Cyfansymiau Corfforaethol) | Niferoedd |
|---|---|
| Bwdhaidd | 4 |
| Cristion (Pob Enwad) | 1,130 |
| Hindŵaidd | 6 |
| Iddewig | 1 |
| Mwslim | 2 |
| Dyneiddiwr | 3 |
| Dim Crefydd | 1,307 |
| Heb ei ddatgelu | 6,125 |
| Anfodlon Datgan | 74 |
| Arall | 30 |
| **Cyfanswm yr Awdurdod** | **8,682** |

| Cyfeiriadedd Rhywiol (Cyfansymiau Corfforaethol) | Niferoedd |
|---|---|
| Deurywiol | 12 |
| Hoyw | 34 |
| Heterorywiol | 2,466 |
| Lesbiad | 16 |
| Arall | 24 |
| Heb ei ddatgelu | 6,014 |
| Anfodlon Datgan | 116 |
| **Cyfanswm yr Awdurdod** | **8,682** |

| **Cenedligrwydd** **(Cyfansymiau Corfforaethol)** | **Niferoedd** |
|---|---|
| Prydeinig (Nid Ynysoedd y Sianel nac Ynys Manaw) | 888 |
| Seisnig | 71 |
| Gogledd Iwerddon | 3 |
| Gwyddelig | 4 |
| Cymreig | 1,903 |
| Albanaidd | 8 |
| Cernywaidd | 1 |
| Arall | 29 |
| Heb ei ddatgelu | 5,771 |
| Anfodlon Datgan | 4 |
| **Cyfanswm** | 8,682 |

| **Gallu Ieithyddol** **(ar wahân i Saesneg) (Cyfansymiau Corfforaethol)** | **Niferoedd** |
|---|---|
| Arabeg | **1** |
| Braille | 2 |
| Iaith Arwyddion Prydain (BSL) | 55 |
| Croasiaidd | 1 |
| Iseldireg | 1 |
| Ffrangeg | 45 |
| Almaeneg | 18 |
| Groeg | 1 |
| Hebraeg | 1 |
| Hindi | 2 |
| Hwngareg | 1 |
| Eidaleg | 6 |
| Cwrdeg | 1 |
| Iaith Arwyddion Makaton | 1 |
| Malaialam | 2 |
| Nepaleg | 1 |
| Rwmaneg | 3 |
| Rwsieg | 1 |
| Sbaeneg | 14 |
| Tamil | 1 |
| Twrceg | 2 |
| Cymraeg | 402 |
| **(Nid oes cyfanswm staff yn cael ei gofnodi gan fod rhai staff yn siarad mwy na dwy iaith)** | |